Notice:
This qualification specification has some contents which may still refer to CACHE rather than NCFE CACHE.
In all instances please read CACHE as NCFE CACHE.
CACHE; Council for Awards in Care, Health and Education; and NNEB are registered trademarks owned by NCFE.
The contents of the units within this specification have not been changed in any way.

# Cynnwys


3.1 Cyfathrebu a chydberthnasoedd proffesiynol â phlant, pobl ifanc ac oedolion

3.2 Ysgolion fel sefydliadau

3.3 Cefnogi gweithgareddau dysgu

3.4 Hybu ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc

3.5 Meithrin cydberthnasau proffesiynol â phlant, pobl ifanc ac oedolion

3.6 Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc

3.7 Cefnogi asesu ar gyfer dysgu

3.8 Goruchwylio gweithgareddau dysgu dosbarth cyfan

3.9 Arolygu profion ac arholiadau

3.10 Cynllunio a chyflwyno gweithgareddau dysgu o dan gyfarwyddyd athro

3.11 Cefnogi datblygu llythrennedd

3.12 Cefnogi datblygu rhifedd

3.13 Cefnogi addysgu a dysgu mewn maes cwricwlaidd

3.14 Cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm 14 – 19

3.15 Rhoi cymorth llythrennedd a rhifedd

3.16 Cefnogi dysgwyr dawnus a thalentog

3.17 Cefnogi dysgwyr dwyieithog

3.18 Darparu cymorth dwyieithog ar gyfer addysgu a dysgu

3.19 Cefnogi plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig

3.20 Cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol

3.21 Cefnogi dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu

3.22 Cefnogi dysgwyr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio

3.23 Cefnogi dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol

3.24 Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod cyfnodau o newid yn eu bywydau

3.25 Arwain gweithgaredd allgyrsiol

3.26 Cynnal cofnodion dysgwyr

3.27 Monitro a chynnal adnoddau cwricwlwm

3.28 Trefnu teithio i blant a phobl ifanc

3.29 Goruchwylio plant a phobl ifanc ar deithiau, ymweliadau a gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad

3.30 Gweithio gydag ymarferwyr eraill i gefnogi plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cyfathrebu a chydberthnasoedd proffesiynol â phlant, pobl ifanc ac oedolion |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 2 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall egwyddorion meithrin cydberthnasoedd cadarnhaol â phlant, pobl ifanc ac oedolion | 1.1 Esbonio pam mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig o ran meithrin cydberthnasoedd cadarnhaol â phlant, pobl ifanc ac oedolion<br>1.2 Esbonio egwyddorion meithrin cydberthnasoedd â phlant, pobl ifanc ac oedolion<br>1.3 Esbonio sut y gall cyd-destunau cymdeithasol, proffesiynol a diwylliannol gwahanol effeithio ar gydberthnasoedd a'r ffordd y mae pobl yn cyfathrebu |
| 2. Deall sut i gyfathrebu â phlant, pobl ifanc ac oedolion | 2.1 Esbonio'r sgiliau sydd eu hangen i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc<br>2.2 Esbonio sut i addasu cyfathrebu â phlant a phobl ifanc at:<br>a) oedran y plentyn neu'r unigolyn ifanc<br>b) cyd-destun y cyfathrebu<br>c) **gwahaniaethau cyfathrebu**<br>2.3 Esbonio'r prif wahaniaethau rhwng cyfathrebu ag oedolion a chyfathrebu â phlant a phobl ifanc<br>2.4 Esbonio sut i addasu cyfathrebu i fodloni anghenion cyfathrebu gwahanol oedolion<br>2.5 Esbonio sut i reoli anghytuno rhwng plant, pobl ifanc ac oedolion |
| 3. Deall y ddeddfwriaeth, y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys diogelu data | 3.1 Crynhoi prif bwyntiau deddfwriaeth a gweithdrefnau sy'n cwmpasu cyfrinachedd, diogelu data a datgelu gwybodaeth<br>3.2 Esbonio pwysigrwydd tawelu pryderon plant, pobl ifanc ac oedolion am gyfrinachedd gwybodaeth a rennir a chyfyngiadau hyn |

| | |
|---|---|
| | 3.3 Cyfiawnhau'r mathau o sefyllfaoedd pan fydd yn rhaid i brotocolau cyfrinachedd gael eu torri |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ategu cyfathrebu effeithiol a chydberthnasoedd proffesiynol â phlant, pobl ifanc ac oedolion. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL20 Meithrin a hybu cydberthnasoedd cadarnhaol (CCLD 301)<br>Deunyddiau hyfforddiant cychwynnol:<br>Hybu ymddygiad cadarnhaol |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>**Anawsterau cyfathrebu** rhwng unigolion a allai greu rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol rhyngddynt e.e:<br>• iaith<br>• nam ar y synhwyrau<br>• nam lleferydd, iaith neu gyfathrebu<br>• galluoedd gwybyddol<br>• cyflwr emosiynol<br>• gwahaniaethau diwylliannol |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 10 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Ysgolion fel sefydliadau |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gwybod strwythur addysg o addysg y blynyddoedd cynnar i addysg ôl-orfodol | 1.1 Grynhoi'r hawliau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar<br>1.2 Esbonio nodweddion y mathau gwahanol o ysgolion mewn perthynas â chyfnod(au) addysgol a llywodraethu ysgolion<br>1.3 Esbonio'r dewisiadau ôl-16 i bobl ifanc ac oedolion |
| 2. Deall sut mae ysgolion wedi'u trefnu o ran rolau a chyfrifoldebau | 2.1 Esbonio pwrpas strategol:<br>a) llywodraethwyr ysgol<br>b) y tîm uwch reoli<br>c) rolau statudol eraill e.e cydlynwyr AAA<br>ch athrawon<br>d) rolau staff cymorth<br>2.2 Esbonio rolau gweithwyr proffesiynol allanol a all weithio gydag ysgol e.e seicolegydd addysgol |
| 3. Deall ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd ysgolion | 3.1 Esbonio sut y gall ethos, cenhedaeth, nodau a gwerthoedd ysgol gael eu hadlewyrchu mewn arferion gwaith<br>3.2 Gwerthuso dulliau cyfleu ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd ysgol |
| 4. Gwybod am y ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar ysgolion | 4.1 Crynhoi'r cyfreithiau a'r codau arfer sy'n effeithio ar waith mewn ysgolion<br>4.2 Esbonio sut mae deddfwriaeth yn effeithio ar sut mae ysgolion yn gweithio<br>4.3 Esbonio rolau cyrff rheoliadol sy'n berthnasol i'r sector addysg sy'n bodoli i fonitro a gorfodi'r fframwaith deddfwriaethol gan gynnwys:<br>a) cyrff cyffredinol megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<br>b) cyrff rheoliadol sy'n berthnasol i ysgolion |

| | |
|---|---|
| 5. Deall pwrpas polisïau a gweithdrefnau ysgolion | 5.1 Esbonio pam mae gan ysgolion bolisïau a gweithdrefnau<br>5.2 Crynhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau y gallai fod gan ysgolion yn ymwneud â:<br>a) staff<br>b) lles disgyblion<br>c) addysgu a dysgu<br>ch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>d) ymgysylltu â rhieni<br>5.3 Gwerthuso sut y gellir datblygu a chyfleu polisïau a gweithdrefnau ysgolion |
| 6. Deall y cyd-destun ehangach y mae ysgolion yn gweithredu ynddo | 6.1 Crynhoi rolau a chyfrifoldebau llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol ar gyfer polisi ac ymarfer addysg<br>6.2 Esbonio rôl ysgolion mewn polisïau cenedlaethol yn ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd<br>6.3 Esbonio rolau sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a sut y gall y rhain effeithio ar waith ysgolion |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Nod yr uned hon yw paratoi'r dysgwr i weithio mewn ysgol. Mae'n cwmpasu gwybodaeth a dealltwriaeth am strwythur addysg, sut y caiff ysgolion eu trefnu, ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd ysgolion, fframweithiau deddfwriaeth a pholisi a'r cyd-destun ehangach y mae ysgolion yn gweithredu ynddo. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | SWiS 3.2 Cefnogi ethos, polisïau ac arferion gwaith yr ysgol<br>Deunyddiau hyfforddiant cychwynnol:<br>Rôl a chyd-destun |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion. |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |

| | |
|---|---|
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 15 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi gweithgareddau dysgu |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gallu cyfrannu at gynllunio gweithgareddau dysgu | 1.1 Esbonio sut y gall ymarferydd cefnogi dysgu gyfrannu at gynllunio, cyflwyno ac adolygu gweithgareddau dysgu<br>1.2 Gwerthuso ei gryfderau a'i wendidau ei hun mewn perthynas â chefnogi gweithgareddau dysgu a sut y gall y rhain effeithio ar y cymorth y gellir ei roi<br>1.3 Defnyddio gwybodaeth am y dysgwyr a'r cwricwlwm i gyfrannu at gynllunio'r athro<br>1.4 Cynnig awgrymiadau adeiladol ar gyfer ei rôl ei hun o ran cefnogi gweithgareddau dysgu arfaethedig<br>1.5 Nodi a chefnogi'r **wybodaeth angenrheidiol** i gefnogi gweithgareddau dysgu |
| 2. Gallu paratoi ar gyfer gweithgareddau dysgu | 2.1 Dewis a pharatoi'r **adnoddau** angenrheidiol ar gyfer y gweithgareddau dysgu arfaethedig<br>2.2 Datblygu ac addasu adnoddau i fodloni anghenion dysgwyr<br>2.3 Sicrhau bod yr amgylchedd dysgu'n bodloni gofynion iechyd, diogelwch, diogeledd a mynediad perthnasol |
| 3. Gallu cefnogi gweithgareddau dysgu | 3.1 Dewis a dangos **strategaethau cefnogi dysgu** i fodloni anghenion dysgwyr<br>3.2 Esbonio sut y gall **trefniadaeth a chydberthnasoedd cymdeithasol** effeithio ar y broses ddysgu<br>3.3 Rhoi sylw i ddysgwyr mewn ffordd sy'n sicrhau cydbwysedd o ran anghenion unigolion a'r grŵp cyfan<br>3.4 Dangos ffyrdd o annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain |

| | |
|---|---|
| | 3.5 Dangos ffyrdd o gefnogi dysgwyr i ddatblygu:<br>a) sgiliau llythrennedd<br>b) sgiliau rhifedd<br>c) sgiliau TGCh<br>ch sgiliau datrys problemau<br>3.6 Esbonio'r mathau o **broblemau** a allai godi wrth gefnogi gweithgareddau dysgu a sut i ymdrin â'r rhain |
| 4. Gallu arsylwi ac adrodd ar gyfranogiad a chynnydd dysgwyr | 4.1 Rhoi sgiliau a thechnegau ar waith ar gyfer monitro ymateb dysgwyr at weithgareddau dysgu<br>4.2 Asesu pa mor dda mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a'r cynnydd maent yn ei wneud<br>4.3 Cofnodi arsylwadau ac asesiadau o gyfranogiad a chynnydd dysgwyr yn y fformat sydd ei angen |
| 5. Gallu cyfrannu at werthuso gweithgareddau dysgu | 5.1 Esbonio pwysigrwydd gwerthuso gweithgareddau dysgu<br>5.2 Defnyddio deilliannau arsylwadau ac asesiadau i:<br>a roi adborth i ddysgwyr ar gynnydd a wneir<br>b rhoi adborth adeiladol ar y gweithgareddau dysgu i'r athro<br>c rhoi adborth ar gyfranogiad a chynnydd dysgwyr i'r athro<br>ch myfyrio ar ei arfer ei hun a'i wella o ran cefnogi gweithgareddau dysgu |
| 6. Gallu gwerthuso ei arfer ei hun mewn perthynas â chefnogi llythrennedd, rhifedd a TGCh | 6.1 Gwerthuso sut mae ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau ei hun o ran llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithio ar ymarfer<br>6.2 Datblygu cynllun ar gyfer gwella ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau ei hun o ran llythrennedd, rhifedd a TGCh |

| Gwybodaeth ychwanegol am yr uned | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi gweithgareddau dysgu. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran cefnogi'r cylch cynllunio, cyflwyno, asesu ac adolygu. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL18 Cefnogi gweithgareddau dysgu disgyblion<br>STL8 Defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi dysgu disgyblion<br>STL29 Arsylwi a hybu perfformiad a datblygiad disgyblion<br>Deunyddiau cychwynnol ar gyfer cynorthwywyr addysgu:<br>Rôl a chyd-destun<br>Llythrennedd<br>Mathemateg<br>Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf 1.3, 1.4, 1.5, 2.1, 2.2, 2.3, 3.1, 3.3, 3.4, 3.5, 4.1, 4.2, 4.3 a 5.2 gael eu hasesu yn y gweithle.<br><br>Mae **gwybodaeth angenrheidiol** i gefnogi gweithgareddau dysgu yn cynnwys:<br>• cwricwlwm ysgol perthnasol a disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran disgyblion<br>• yr amcanion addysgu a dysgu<br>• yr adnoddau dysgu angenrheidiol<br>• ei rôl ei hun o ran cefnogi'r gweithgareddau dysgu<br>• unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y plant neu'r bobl ifanc dan sylw |

| | |
|---|---|
| | **Adnoddau** i gefnogi gweithgareddau dysgu gan gynnwys:<br>• deunyddiau<br>• offer (gan gynnwys TGCh)<br>• meddalwedd<br>• llyfrau a deunyddiau ysgrifenedig eraill<br>**Strategaethau cefnogi dysgu** i gefnogi anghenion dysgu, er enghraifft:<br>• creu amgylchedd dysgu cadarnhaol<br>• rheoli ymddygiad<br>• annog cydlyniant grŵp a dysgu ar y cyd<br>• annog dysgwyr swil neu dawedog i ofyn cwestiynau a gwirio dealltwriaeth<br>• cyfieithu neu esbonio geiriau ac ymadroddion<br>• atgoffa dysgwyr am bwyntiau addysgu a wneir gan yr athro<br>• modelu defnydd cywir o iaith a geirfa<br>• sicrhau bod dysgwyr yn deall y tasgau dysgu<br>• helpu dysgwyr i ddefnyddio adnoddau sy'n berthnasol i'r gweithgaredd dysgu<br>• rhoi sylw unigol, sicrwydd a chymorth o ran tasgau dysgu fel sy'n briodol i anghenion dysgwyr<br>• newid neu addasu gweithgareddau<br>**Trefniadaeth a chydberthnasoedd cymdeithasol**, er enghraifft:<br>• grwpiau dysgwyr<br>• datblygu grwpiau<br>• dynameg grwpiau<br>• y ffordd y mae oedolion yn rhyngweithio â dysgwyr ac yn ymateb iddynt<br>**Problemau** sy'n ymwneud â:<br>• y gweithgareddau dysgu<br>• yr adnoddau dysgu<br>• yr amgylchedd dysgu<br>• y dysgwyr<br>• asesu |

| | |
|---|---|
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael gan/o** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yr uned** | 20 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Hybu ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc | 1.1 **Grynhoi polisïau a gweithdrefnau'r** lleoliad sy'n berthnasol i hybu ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc<br>1.2 Gwerthuso sut mae polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn cefnogi plant a phobl ifanc i:<br>a) deimlo'n ddiogel<br>b) gwneud cyfraniad cadarnhaol<br>c) datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol<br>ch deall disgwyliadau a chyfyngiadau<br>1.3 Esbonio manteision pob aelod o staff yn rhoi'r ffiniau a'r rheolau i ymddygiad plant a phobl ifanc ar waith yn gyson ac yn deg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r lleoliad |
| 2. Gallu hybu ymddygiad cadarnhaol | 2.1 Esbonio manteision hybu agweddau cadarnhaol ar ymddygiad<br>2.2 Dangos ffyrdd o sefydlu rheolau sylfaenol gyda phlant a phobl ifanc sy'n ategu ymddygiad priodol a pharch at bobl eraill<br>2.3 Dangos strategaethau ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol yn ôl polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad<br>2.4 Dangos ymatebion realistig, cyson a chefnogol i ymddygiad plant a phobl ifanc<br>2.5 Darparu delfryd ymddwyn effeithiol ar gyfer y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan blant, pobl ifanc ac oedolion yn y lleoliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | Gallu rheoli ymddygiad amhriodol | 3.1 | Dangos strategaethau ar gyfer lleihau tarfu drwy **ymddygiad amhriodol** plant a phobl ifanc |
| | | 3.2 | Dangos strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad amhriodol yn ôl polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad |
| | | 3.3 | Rhoi rheolau a ffiniau ar waith yn gyson ac yn deg, yn ôl oedran, anghenion a galluoedd plant a phobl ifanc |
| | | 3.4 | Rhoi cymorth i gydweithwyr o ran ymdrin ag ymddygiad amhriodol plant a phobl ifanc |
| | | 3.5 | Esbonio'r mathau o ymddygiad neu broblemau disgyblu y dylid eu cyfeirio at eraill ac at bwy y dylid eu cyfeirio |
| 4. | Gallu ymateb i ymddygiad heriol | 4.1 | Adnabod patrymau a sbardunau a allai arwain at ymatebion ymddygiadol amhriodol a chymryd camau i ragweld, cyfeirio neu fynd i'r afael â gwrthdaro posibl |
| | | 4.2 | Defnyddio strategaethau cytûn ar **gyfer ymdrin ag ymddygiad heriol** yn ôl polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad |
| | | 4.3 | Asesu a rheoli risgiau i'w ddiogelwch ei hun ac i ddiogelwch pobl eraill wrth ymdrin ag ymddygiad heriol |
| | | 4.4 | Cefnogi plant, pobl ifanc a chydweithwyr i nodi'r sefyllfaoedd a'r amgylchiadau sy'n sbarduno ymatebion ymddygiadol amhriodol a ffyrdd o osgoi'r rhain yn digwydd |
| | | 4.5 | Adnabod a chymryd camau gweithredu ar unwaith i ymdrin ag unrhyw fwlio, aflonyddu neu ymddygiad gormesol yn ôl polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad |
| 5. | Gallu cyfrannu at adolygiadau o ymddygiad a pholisïau ymddygiad | 5.1 | Dangos ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i adolygu eu hymddygiad ac effaith hyn ar eraill, nhw eu hunain a'u hamgylchedd |
| | | 5.2 | Dangos ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc o ran anawsterau ymddygiadol i nodi a chytuno ar dargedau ymddygiad |

| | |
|---|---|
| | 5.3 Defnyddio ei wybodaeth ei hun am hybu ymddygiad cadarnhaol i gyfrannu at adolygiadau o bolisïau ymddygiad, gan gynnwys bwlio, presenoldeb ac effeithiolrwydd gwobrau a chosbau<br>5.4 Rhoi adborth clir a chytbwys ar effeithiolrwydd strategaethau rheoli ymddygiad i lywio adolygu a datblygu polisi |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hybu ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc. Mae'n ofynnol dangos cymhwyseddd o ran hybu ymddygiad cadarnhaol, rheoli ymddygiad amhriodol, ymdrin ag ymddygiad heriol a chyfrannu at adolygiadau o ymddygiad a pholisïau ymddygiad. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL19 Hybu ymddygiad cadarnhaol<br>STL37 Cyfrannu at atal a rheoli ymddygiad heriol mewn plant a phobl ifanc (HSC326)<br>Deunyddiau hyfforddiant cychwynnol:<br>Hybu ymddygiad cadarnhaol |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 4.5, 5.1, 5.2, 5.3 a 5.4 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Polisïau a gweithdrefnau'r** lleoliad sy'n berthnasol i hybu ymddygiad cadarnhaol e.e:<br>• polisi ymddygiad<br>• cod ymddygiad<br>• gwobrau a chosbau<br>• ymdrin â gwrthdaro ac ymddygiad amhriodol<br>• gwrthfwlio<br>• presenoldeb |

| | |
|---|---|
| | Mae **ymddygiad amhriodol** yn ymddygiad sy'n gwrthdaro â gwerthoedd a chredoau derbyniedig y lleoliad a'r gymdeithas. Gallai ymddygiad amhriodol gael ei ddangos ar lafar, yn ysgrifenedig, drwy ymddygiad di-eiriau neu gamdriniaeth gorfforol.<br>Gallai **ymddygiad heriol gynnwys:**<br>• difrïo ar lafar (e.e sylwadau hiliol, bygythiadau, bwlio pobl eraill)<br>• camdriniaeth gorfforol (megis ymosod ar eraill, difrodi eiddo)<br>• ymddygiad sy'n andwyol i'r plentyn/unigolyn ifanc<br>• ymddygiad sy'n anghyfreithlon |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 15 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Meithrin cydberthnasoedd proffesiynol â phlant, pobl ifanc ac oedolion |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 2 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gallu meithrin cydberthnasoedd proffesiynol â phlant a phobl ifanc | 1.1 Ddangos sut i feithrin cydberthynas a pherthnasoedd parchus ar sail ymddiriedaeth â phlant a phobl ifanc<br>1.2 Dangos ymatebion cefnogol a realistig i gwestiynau, syniadau, awgrymiadau a phryderon plant a phobl ifanc<br>1.3 Dangos sut i gefnogi plant a phobl ifanc o ran gwneud dewisiadau drostynt eu hunain<br>1.4 Rhoi sylw i blant a phobl ifanc unigol mewn ffordd sy'n deg iddynt a'r grŵp cyfan |
| 2. Gallu cyfathrebu â phlant a phobl ifanc | 2.1 Defnyddio **ffurfiau gwahanol ar gyfathrebu** i fodloni anghenion plant a phobl ifanc<br>2.2 Dangos sut i addasu cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ar gyfer:<br>a) oedran a chyfnod datblygiad y plentyn neu'r unigolyn ifanc<br>b) cyd-destun y cyfathrebu<br>c) **gwahaniaethau cyfathrebu**<br>2.3 Dangos **strategaethau a thechnegau i hybu dealltwriaeth ac ymddiriedaeth wrth gyfathrebu** â phlant a phobl ifanc |
| 3. Gallu meithrin cydberthnasoedd proffesiynol ag oedolion | 3.1 Dangos sut i feithrin cydberthynas a pherthnasoedd proffesiynol ag oedolion<br>3.2 Dangos sut i addasu cyfathrebu ag oedolion ar gyfer:<br>a) gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol<br>b) cyd-destun y cyfathrebu<br>c) gwahaniaethau cyfathrebu |

| | |
|---|---|
| | 3.3 Dangos strategaethau a thechnegau i hybu dealltwriaeth a ffydd wrth gyfathrebu ag oedolion<br>3.4 Defnyddio sgiliau a thechnegau i ddatrys anghydfod a gwrthdaro yn adeiladol<br>3.5 Esbonio pryd a sut i gyfeirio oedolion eraill at ffynonellau pellach o wybodaeth, cyngor neu gymorth |
| 4. Gallu cefnogi plant a phobl ifanc o ran meithrin cydberthnasoedd | 4.1 Dangos ffyrdd o helpu plant a phobl ifanc i ddeall gwerth a phwysigrwydd cydberthnasoedd cadarnhaol ag eraill<br>4.2 Bod yn ddelfryd ymddwyn effeithiol yn ei gydberthnasoedd ei hun â phlant, pobl ifanc ac oedolion<br>4.3 Defnyddio strategaethau priodol ar gyfer annog a chefnogi plant a phobl ifanc o ran deall a pharchu pobl eraill mewn perthynas ag:<br>a) unigolrwydd, amrywiaeth a gwahaniaethau<br>b) teimladau a safbwyntiau<br>4.4 Dangos ffyrdd o annog a chefnogi plant a phobl ifanc i ymdrin â gwrthdaro drostynt eu hunain<br>4.5 Rhoi anogaeth a chymorth i oedolion eraill yn y lleoliad o ran cael cydberthnasoedd cadarnhaol â phlant a phobl ifanc |
| 5. Gallu cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyfrinachedd, rhannu gwybodaeth a diogelu data | 5.1 Rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith ar gyfer:<br>a) rhannu gwybodaeth<br>b) cyfrinachedd<br>c) diogelu data<br>5.2 Dangos sut i adrodd ar wybodaeth a'i chofnodi'n ffurfiol ac yn anffurfiol yn y ffordd briodol i'r gynulleidfa dan sylw |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn cwmpasu'r cymhwyseddd sydd ei angen i feithrin cydberthnasoedd proffesiynol â phlant, pobl ifanc ac oedolion |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL20 Meithrin a hybu cydberthnasau cadarnhaol (CCLD 301)<br>Deunyddiau hyfforddiant cychwynnol:<br>Hybu ymddygiad cadarnhaol |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i'r holl feini prawf asesu ar wahân i 3.5 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Ffurfiau ar gyfathrebu** e.e:<br>• iaith lafar<br>• chwarae<br>• iaith y corff<br>• iaith arwyddion<br>**Gwahaniaethau cyfathrebu** rhwng unigolion a allai greu rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol rhyngddynt e.e:<br>• iaith<br>• nam ar y synhwyrau<br>• nam ar y lleferydd, iaith neu gyfathrebu<br>• galluoedd gwybyddol<br>• cyflwr emosiynol<br>• anawsterau diwylliannol<br>**Strategaethau a thechnegau i hybu dealltwriaeth ac ymddiriedaeth mewn cyfathrebu**, e.e:<br>• gwrando'n astud<br>• osgoi gwneud rhagdybiaethau<br>• defnyddio cwestiynau i esbonio a gwirio dealltwriaeth<br>• crynhoi a chadarnhau pwyntiau allweddol |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |

| | |
|---|---|
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 10 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 2 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gallu hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc | 1.1 Nodi'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer presennol sy'n berthnasol i hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth.<br>1.2 Disgrifio pwysigrwydd cefnogi hawliau pob plentyn ac unigolyn ifanc i **gyfranogi** ac i gael **mynediad cyfartal**<br>1.3 Disgrifio pwysigrwydd a manteision gwerthfawrogi a hybu amrywiaeth ddiwylliannol mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc<br>1.4 Rhyngweithio â phlant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn parchu gwahaniaethau diwylliannol, crefyddol ac ethnig<br>1.5 Dangos ffyrdd o roi egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth ac **arfer gwrth-wahaniaethu** ar waith yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc |
| 2. Deall effaith rhagfarn a gwahaniaethu ar blant a phobl ifanc | 2.1 Esbonio ffyrdd y gall plant a phobl ifanc wynebu rhagfarn a gwahaniaethu<br>2.2 Dadansoddi effaith rhagfarn a gwahaniaethu ar blant a phobl ifanc<br>2.3 Gwerthuso sut y gallai ei agweddau ei hun, ei werthoedd a'i ymddygiad effeithio ar waith gyda phlant a phobl ifanc<br>2.4 Esbonio sut i hybu arfer gwrth-wahaniaethu mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc<br>2.5 Esbonio sut i herio gwahaniaethu |
| 3. Gallu cefnogi cynhwysiant ac arferion cynhwysol mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc | 3.1 Esbonio ystyr **cynhwysiant** ac arferion cynhwysol<br>3.2 Nodi rhwystrau rhag cyfranogiad plant a phobl ifanc |

| | |
|---|---|
| | 3.3 Dangos ffyrdd o gefnogi cynhwysiant ac arferion cynhwysol yn ei waith ei hun gyda phlant a phobl ifanc |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a chefnogi cynhwysiant. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL18 Cefnogi gweithgareddau dysgu disgyblion<br>STL23 Cynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgareddau addysgu a dysgu o dan gyfarwyddyd athro<br>STL38 Cefnogi plant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig a'u teuluoedd (CCLD 321)<br>STL35 Cefnogi disgyblion dwyieithog/aml-ieithog<br>STL36 Darparu cymorth dwyieithog/aml-ieithog ar gyfer addysgu a dysgu<br>Deunyddiau hyfforddiant cychwynnol:<br>Modiwlau cynhwysiant |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf 1.4, 1.5 a 3.3 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>Mae **Cyfranogi** yn cynnwys:<br>gofyn i blant a phobl ifanc am yr hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio a'r hyn a allai weithio'n well; a'u cynnwys o ran cynllunio, cyflwyno a gwerthuso gwasanaethau yn barhaus.<br>**Mynediad cyfartal:**<br>sicrhau bod rhwystrau gwahaniaethol rhag mynediad yn cael eu tynnu ymaith a chaniatáu ar gyfer anghenion unigol plant a phobl ifanc |

| | |
|---|---|
| | **Arfer gwrth-wahaniaethol:**<br>cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â gwahaniaethu. Bydd hyn yn cynnwys adnabod a herio gwahaniaethu a bod yn gadarnhaol yn ei arfer ei hun am wahaniaethau a thebygrwydd rhwng pobl<br><br>**Cynhwysiant:**<br>proses o nodi, deall a chwalu rhwystrau rhag cyfranogi a pherthyn. |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br><br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 10 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi asesu ar gyfer dysgu |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall pwrpas a nodweddion asesu ar gyfer dysgu | 1.1 Gymharu a chyferbynnu rolau'r athro a'r ymarferydd cefnogi dysgu wrth asesu cyflawniadau dysgwyr<br>1.2 Crynhoi'r gwahaniaeth rhwng asesu ffurfiannol a chrynodol<br>1.3 Esbonio nodweddion **asesu ar gyfer dysgu**<br>1.4 Esbonio pwysigrwydd a manteision asesu ar gyfer dysgu<br>1.5 Esbonio sut gall asesu ar gyfer dysgu gyfrannu at gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol wedi'i gynnal gan:<br>a) yr athro<br>b) y dysgwyr<br>c) yr ymarferydd cefnogi dysgu |
| 2. Gallu defnyddio strategaethau asesu i hybu dysgu | 2.1 Cael y **wybodaeth angenrheidiol** i gefnogi asesu ar gyfer dysgu<br>2.2 Defnyddio iaith glir ac enghreifftiau i drafod ac esbonio **nodau dysgu personol** a meini prawf ar gyfer asesu cynnydd gyda dysgwyr<br>2.3 Defnyddio **cyfleoedd a strategaethau asesu** i gael gwybodaeth a barnu pa mor dda mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a'r cynnydd maent yn ei wneud<br>2.4 Rhoi adborth adeiladol i ddysgwyr i'w helpu i ddeall yr hyn maent wedi'i wneud yn dda a'r hyn mae angen iddynt ei ddatblygu<br>2.5 Cynnig cyfleoedd ac anogaeth i ddysgwyr wella eu gwaith |
| 3. Gallu cefnogi dysgwyr o ran adolygu eu strategaethau a'u cyflawniadau dysgu | 3.1 Defnyddio gwybodaeth a enillir o fonitro cyfranogiad a chynnydd dysgwyr i helpu dysgwyr i adolygu eu strategaethau dysgu, cyflawniadau a'u hangenion dysgu yn y dyfodol |

| | |
|---|---|
| | 3.2 Gwrando'n ofalus ar ddysgwyr a'u hannog yn gadarnhaol i gyfleu eu hanghenion a'u syniadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol<br>3.3 Cefnogi dysgwyr o ran defnyddio asesu gan gymheiriaid a hunanasesu i werthuso eu cyflawniadau dysgu<br>3.4 Cefnogi dysgwyr o ran:<br>a) myfyrio ar eu dysgu<br>b) nodi'r cynnydd maent wedi'i wneud<br>c) nodi eu hangenion dysgu sy'n dod i'r amlwg<br>ch nodi cryfderau a gwendidau eu strategaethau dysgu a chynllunio sut i'w gwella |
| 4. Gallu cyfrannu at adolygu asesu ar gyfer dysgu | 4.1 Rhoi adborth i'r dysgwr ar:<br>a) gyfranogiad a chynnydd dysgwyr yn y gweithgareddau dysgu<br>b) ymgysylltiad dysgwyr ag asesu ar gyfer dysgu a'u hymateb iddo<br>c) cynnydd dysgwyr o ran cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain<br>4.2 Defnyddio deilliannau'r asesu ar gyfer dysgu i fyfyrio ar ei gyfraniad ei hun at gefnogi dysgu a'i wella |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi asesu ar gyfer dysgu. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran defnyddio strategaethau asesu i hybu dysgu, cefnogi dysgwyr i adolygu eu strategaethau dysgu a'u cyflawniadau, a gweithio gyda'r athro i adolygu prosesau a deilliannau asesu ar gyfer dysgu. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL30 Cyfrannu at asesu ar gyfer dysgu |

| | |
|---|---|
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br><br>Mae'n rhaid i feini prawf 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 4.1 a 4.2 gael eu hasesu yn y gweithle.<br><br>Mae **asesu ar gyfer dysgu** yn cynnwys defnyddio asesu, fel rhan o addysgu a dysgu, mewn ffyrdd a fydd yn gwella cyflawniad dysgwyr.<br><br>**Gwybodaeth angenrheidiol** i gefnogi asesu ar gyfer dysgu:<br>• amcanion dysgu'r gweithgareddau<br>• nodau dysgu personol dysgwyr unigol<br>• meini prawf llwyddiant gweithgareddau dysgu<br>• y cyfleoedd asesu a'r strategaethau sy'n berthnasol i'w rôl ei hun yn y gweithgareddau dysgu<br><br>Bydd **nodau dysgu personol** yn adlewyrchu amcanion dysgu gweithgareddau ac yn ystyried cyflawniadau blaenorol ac anghenion dysgu unigol dysgwyr.<br><br>**Cyfleoedd a strategaethau asesu** yw'r achlysuron, ymagweddau a thechnegau sydd eu hangen ar gyfer asesu parhaus yn ystod gweithgareddau dysgu, megis:<br>• defnyddio cwestiynau penagored<br>• arsylwi dysgwyr<br>• gwrando ar sut mae dysgwyr yn disgrifio eu gwaith a'u rhesymau<br>• gwirio dealltwriaeth dysgwyr<br>• ymgysylltu dysgwyr â'r broses adolygu<br>• annog dysgwyr i gofio eu nodau dysgu ac i asesu eu cynnydd eu hunain o ran bodloni'r rhain wrth iddynt ddatblygu<br>• annog dysgwyr i adolygu a rhoi sylwadau ar eu gwaith cyn ei gyflwyno neu ei drafod gyda'r athro<br>• canmol dysgwyr pan fyddant yn canolbwyntio eu sylwadau ar eu nodau dysgu personol ar gyfer y dasg |

| | |
|---|---|
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 20 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Goruchwylio gweithgareddau dysgu dosbarth cyfan |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gallu paratoi ar gyfer goruchwylio gweithgareddau dysgu dosbarth cyfan | 1.1 Esbonio polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer goruchwylwyr cyflenwi<br>1.2 Nodi a chael:<br>a) y gwaith a bennwyd ar gyfer y dosbarth dan sylw<br>b) manylion am yr **adnoddau dysgu** sydd eu hangen<br>c) unrhyw **gyfarwyddiadau penodol**<br>1.3 Cael a threfnu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgareddau dysgu<br>1.4 Cadarnhau bod yr amgylchedd dysgu'n bodloni gofynion perthnasol iechyd, diogelwch, diogeledd a mynediad |
| 2. Gallu goruchwylio gweithgareddau dysgu dosbarth cyfan | 2.1 Rhoi cyfarwyddiadau clir i ddysgwyr ar y gwaith i'w gwblhau<br>2.2 Ymateb i gwestiynau gan ddysgwyr am y broses a'r gweithdrefnau<br>2.3 Defnyddio strategaethau priodol ar gyfer goruchwylio'r gwaith a osodwyd<br>2.4 Dangos ffyrdd o reoli ymddygiad dysgwyr i sicrhau amgylchedd dysgu adeiladol<br>2.5 Dangos ffyrdd o annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain<br>2.6 Esbonio'r mathau o **broblemau** a allai ddigwydd wrth oruchwylio gweithgareddau dysgu dosbarth cyfan a sut i ymdrin â'r rhain |
| 3. Gallu cefnogi dysgwyr o ran cwblhau gwaith a osodwyd iddynt | 3.1 Rhoi sgiliau a thechnegau ar waith ar gyfer monitro ymatebion dysgwyr i weithgareddau dysgu |

| | |
|---|---|
| | 3.2 Asesu pa mor dda mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a'r cynnydd maent yn ei wneud o ran cwblhau'r gwaith a osodwyd iddynt<br>3.3 Dangos ffyrdd o gefnogi dysgwyr i barhau â'r dasg dan sylw a chwblhau'r gwaith a osodwyd<br>3.4 Cyflwyno gweithgareddau ymestynnol i ddysgwyr sydd wedi cwblhau gwaith a roddwyd iddynt cyn diwedd y wers |
| 4. Gallu dod â gweithgareddau dysgu dosbarth cyfan i ben | 4.1 Rhoi gweithdrefnau'r ysgol ar waith ar gyfer:<br>a) casglu unrhyw waith sydd wedi'i gwblhau ar ôl y wers a'i roi i'r athro priodol<br>b) casglu unrhyw adnoddau dysgu<br>c) rhoi gwybod i ddysgwyr am unrhyw waith dilynol neu waith cartref a osodwyd iddynt<br>ch rhyddau dysgwyr ar ddiwedd y wers<br>d) adrodd yn ôl fel y bo'n briodol ar ymddygiad a chyfranogiad dysgwyr yn ystod y wers ac unrhyw faterion sy'n codi |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i oruchwylio gweithgareddau dysgu yn absenoldeb athro. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran paratoi ar gyfer gweithgareddau dysgu a'u goruchwylio, cefnogi dysgwyr i gwblhau gwaith a osodwyd gan yr athro a dod â'r wers i ben yn unol â pholisi a gweithdrefnau ysgol. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL18 Cefnogi gweithgareddau dysgu disgyblion<br>STL8 Defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi dysgu disgyblion |

| | |
|---|---|
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 1.2, 1.3, 1.4, 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4 a 4.1 gael eu hasesu yn y gweithlu.<br>**Adnoddau dysgu** i gefnogi gweithgareddau dysgu gan gynnwys:<br>• deunyddiau<br>• offer (gan gynnwys TGCh)<br>• meddalwedd<br>• llyfrau a deunyddiau ysgrifenedig eraill<br>**Cyfarwyddiadau penodol** yn ymwneud â'r canlynol, er enghraifft:<br>• dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig<br>• cynllun eistedd<br>• problemau ymddygiad<br>• gweithgareddau ymestynnol<br>• gwaith cartref<br>Gallai **problemau** ymwneud â:<br>• y gweithgareddau dysgu<br>• yr adnoddau dysgu<br>• yr amgylchedd dysgu<br>• y dysgwyr |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 15 (i'w gadarnhau) |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Arolygu profion ac arholiadau |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall polisi a gweithdrefnau ar gyfer cynnal profion ac arholiadau | 1.1 Esbonio polisi profion ac arholiadau'r ganolfan<br>1.2 Esbonio'r gweithdrefnau a'r rheoliadau ar gyfer cynnal arholiadau allanol ac unrhyw weithdrefnau arolygu sy'n gysylltiedig â hyn<br>1.3 Esbonio'r mathau o **drefniadau mynediad** y gallai fod eu hangen ar gyfer ymgeiswyr ag anghenion ychwanegol<br>1.4 Esbonio gweithdrefnau'r ganolfan ar gyfer ymateb i achosion brys yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a diogeledd yn ystod prawf neu arholiad<br>1.5 Esbonio'r rhesymau pam y gallai fod angen i ymgeisydd gael ei oruchwylio rhwng profion ac arholiadau |
| 2. Gallu paratoi ar gyfer profion ac arholiadau | 2.1 Dangos y gweithdrefnau cywir ar gyfer **gosod ystafell arholi**<br>2.2 Nodi a chael cyflenwadau o ddeunydd swyddfa awdurdodedig gan gynnwys y papurau profion neu arholiadau cywir<br>2.3 Esbonio a dangos trefniadau i gadw papurau arholiad a deunyddiau profion neu arholiadau eraill yn ddiogel<br>2.4 Nodi a chydymffurfio ag unrhyw **ofynion penodol** ar gyfer y prawf neu'r archwiliad a/neu'r ymgeiswyr sy'n gysylltiedig<br>2.5 Nodi a gwirio unrhyw system cyfathrebu brys os yw ar gael |
| 3. Gallu paratoi ymgeiswyr ar gyfer profion ac arholiadau | 3.1 Esbonio pwysigrwydd paratoi'r ystafell arholi'n barod i dderbyn ymgeiswyr ar yr amser a drefnwyd<br>3.2 Dangos y gweithdrefnau cywir ar gyfer derbyn ymgeiswyr i'r ystafell |

| | |
|---|---|
| | 3.3 Cyflawni'r gwiriadau angenrheidiol i:<br>a) ddilysu hunaniaeth yr ymgeiswyr<br>b) sicrhau na ddeuir ag unrhyw offer neu ddeunyddiau annerbyniol i'r ystafell arholi<br>c) cadarnhau bod ymgeiswyr yn eistedd yn unol â'r cynllun eistedd<br>ch sicrhau bod gan ymgeiswyr y papurau a'r deunyddiau cywir<br>3.4 Esbonio'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag:<br>a) ymgeiswyr nad ydynt ar restr bresenoldeb y prawf neu'r arholiad<br>b) ymgeiswyr sy'n cyrraedd yn hwyr am brawf neu arholiad |
| 4. Gallu rhoi gofynion arolygu ar waith | 4.1 Esbonio pwysigrwydd sicrhau bod yr holl reolau a'r rheoliadau sy'n ymwneud â chynnal profion ac arholiadau'n cael eu rhoi ar waith a'u bod yn cael eu dilyn yn llym<br>4.2 Rhoi cyfarwyddiadau clir a diamwys i ymgeiswyr ar ddechrau profion ac arholiadau<br>4.3 Dangos y gweithdrefnau cywir ar gyfer cwblhau cofrestr bresenoldeb gan gynnwys gofynion penodol i ymgeiswyr:<br>a) sy'n cael eu tynnu allan o brawf neu arholiad<br>b) nad ydynt ar y gofrestr<br>c) sy'n hwyr am brawf neu arholiad<br>ch sy'n absennol o brawf neu arholiad<br>4.4 Rhoi gweithdrefnau'r ganolfan ar waith ar gyfer ymdrin ag:<br>a) ymholiadau gan ymgeiswyr<br>b) ymddygiad aflonyddgar neu ymddygiad afreolaidd<br>c) ymgeiswyr sydd eisiau neu angen gadael yr ystafell arholi yn ystod y prawf neu'r arholiad |

| | |
|---|---|
| 5. Gallu dod â phrofion ac arholiadau i ben | 5.1 Dangos y gweithdrefnau cywir ar gyfer dod â phrofion ac arholiadau i ben gan gynnwys:<br>a) casglu papurau<br>b) caniatáu i ymgeiswyr adael yr ystafell arholi<br>c) cwblhau cofnodion am brofion ac arholiadau<br>5.2 Gwahaniaethu rhwng dod â phrofion ac arholiadau i ben pan:<br>a) ddisgwylir i'r holl ymgeiswyr orffen eu prawf neu eu harholiad ar yr un pryd<br>b) fydd rhai ymgeiswyr yn cymryd rhan mewn prawf neu arholiad o hyd |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arolygu profion ac arholiadau allanol a mewnol, gan gynnwys profion modiwl, arholiadau ymarferol ac ar lafar, o dan amodau ffurfiol.<br>Mae'n cwmpasu paratoi ystafelloedd ac adnoddau arholi, paratoi ymgeiswyr ar gyfer y profion a'r arholiadau, yn ogystal â chynnal profion ac arholiadau a dod â nhw i ben yn ôl gweithdrefnau'r ganolfan. Mae hefyd yn cwmpasu ymdrin â sefyllfaoedd penodol megis trefniadau mynediad, achosion brys ac amheuon ynghylch camymddygiad. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL17 Arolygu profion ac arholiadau |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 3.2, 3.3, 4.2, 4.3, 4.4, 5.1 a 5.2 gael eu hasesu yn y gweithle. |

| | |
|---|---|
| | **Trefniadau mynediad**:<br>y trefniadau a wnaed gan y ganolfan ac y cytunwyd arnynt gan y corff dyfarnnu, os yw'n briodol, ar gyfer ymgeiswyr ag anghenion ychwanegol, e.e cymorth gyda darllen, sgrifellwr, dehonglydd arwyddion<br>**Mae gosod ystafell arholi** yn cynnwys:<br>• nifer gofynnol desgiau/gweithfannau a'u lleoliad<br>• arddangos hysbysiadau<br>• cloc<br>• rhif y ganolfan<br>• cyfarwyddiadau i ymgeiswyr<br>• cynllun eistedd<br>• cofrestr bresenoldeb<br>• trefniadau iechyd a diogelwch<br>• amodau amgylcheddol megis gwresogi, goleuo, awyru a lefel y sŵn y tu allan<br>**Gofynion penodol** ar gyfer y prawf neu'r arholiad a/neu'r ymgeiswyr sy'n gysylltiedig e.e:<br>• arweiniad pellach<br>• hysbysiadau erratum<br>• goruchwylio ymgeiswyr unigol rhwng profion neu arholiadau<br>• trefniadau mynediad |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 19 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cynllunio a chyflwyno gweithgareddau dysgu o dan gyfarwyddyd athro |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gallu cynllunio gweithgareddau dysgu o dan gyfarwyddyd yr athro | 1.1 Esbonio amcanion, cyd-destun a deilliannau bwriadedig gweithgareddau dysgu fel y cytunir arnynt gyda'r athro<br>1.2 Esbonio sut mae'r gweithgareddau dysgu'n ymwneud â fframweithiau statudol ac anstatudol ar gyfer cwricwlwm yr ysgol<br>1.3 Cynllunio a pharatoi gweithgareddau dysgu, yn ôl cyfarwyddyd yr athro, ar gyfer:<br>a) dysgwyr unigol<br>b) grwpiau bach o ddysgwyr<br>1.4 Defnyddio gwybodaeth am y dysgwyr, y cwricwlwm a'i arbenigedd ei hun i gyfrannu at **weithio mewn partneriaeth** â'r athro fel rhan o gynllun cyffredinol y wers |
| 2. Gallu cyflwyno gweithgareddau dysgu | 2.1 Dangos defnyddio dulliau addysgu a dysgu i:<br>a) bodloni'r amcanion dysgu cytûn a'r deilliannau bwriedig<br>b) cynnal cymhelliant a diddordeb dysgwyr<br>c) cefnogi a herio dysgwyr<br>ch casglu adborth ar gynnydd a chyflawniadau dysgwyr<br>2.2 Hybu a chefnogi cynhwysiant yr holl ddysgwyr sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau dysgu<br>2.3 Trefnu a rheoli gweithgareddau dysgu i sicrhau diogelwch dysgwyr<br>2.4 Gweithio mewn partneriaeth â'r athro i gefnogi gweithgareddau dysgu ar gyfer y dosbarth cyfan |

| | |
|---|---|
| 3. Gallu monitro ac asesu deilliannau dysgu | 3.1 Monitro ymatebion dysgwyr i weithgareddau<br>3.2 Dangos ffyrdd o addasu gweithgareddau i fodloni anghenion dysgwyr<br>3.3 Monitro cyfranogiad a chynnydd dysgwyr o ran gweithgareddau dysgu<br>3.4 Defnyddio deilliannau monitro i roi cymorth ac adborth gyda ffocws pendant i ddysgwyr<br>3.5 Defnyddio ystod o dechnegau asesu i gefnogi gwerthuso cynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r deilliannau dysgu bwriadedig |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau dysgu i ategu, atgyfnerthu neu ymestyn addysgu a dysgu sy'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno gan yr athro. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran cynllunio a chyflwyno gweithgareddau dysgu ar gyfer unigolion a grwpiau bach, o dan gyfarwyddyd athro, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â'r athro i gyflwyno gweithgareddau dysgu i ddosbarthiadau cyfan. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL23 Cynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgareddau addysgu a dysgu o dan gyfarwyddyd yr athro<br>Yn cefnogi dilyniant i'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwy-wyr addysgu lefel uwch (HLTA) |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 1.3, 1.4, 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4 a 3.5 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Gweithio mewn partneriaeth:**<br>gweithio gyda'r athro i gefnogi addysgu a dysgu, er enghraifft mewn sesiynau dosbarth cyfan llawn |

| | |
|---|---|
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 21 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi datblygu llythrennedd |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall polisïau ac arferion cenedlaethol a sefydliadol cyfredol ar gyfer datblygu llythrennedd | 1.1 Esbonio nodau a phwysigrwydd darpariaeth ddysgu ar gyfer **datblygu llythrennedd**<br>1.2 Crynhoi'r **polisi** perthnasol a disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran dysgwyr sy'n berthnasol i ddatblygu llythrennedd yn y lleoliad<br>1.3 Crynhoi rhaglen a chynlluniau'r athro ar gyfer datblygu llythrennedd |
| 2. Gallu cefnogi dysgwyr o ran datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu | 2.1 Defnyddio ystod o **strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu**<br>2.2 Dewis a defnyddio strategaethau cymorth i fodloni anghenion a thargedau dysgu dysgwyr unigol |
| 3. Gallu cefnogi dysgwyr o ran datblygu sgiliau siarad a gwrando | 3.1 Defnyddio **ystod o strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando**<br>3.2 Creu cyfleoedd i helpu dysgwyr i ddeall pwysigrwydd gwrando'n astud ac aros eu tro i siarad<br>3.3 Annog dysgwyr i gyfrannu at sgyrsiau a thrafodaethau mewn ffordd sy'n debygol o wella eu hunanhyder a chodi eu hunanbarch<br>3.4 Annog dysgwyr i ymateb yn adeiladol i gyfraniadau dysgwyr eraill at sgyrsiau a thrafodaethau.<br>3.5 Ymateb i ddefnydd dysgwyr o iaith y cartref ac acenion lleol a thafodieithoedd mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol ac yn atgyfnerthu hunanddelweddau cadarnhaol |

| Gwybodaeth ychwanegol am yr uned | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi datblygu llythrennedd. Mae hyn yn cynnwys deall fframweithiau cenedlaethol a sefydliadol ar gyfer datblygu llythrennedd a defnyddio sgiliau a thechnegau i gefnogi dysgwyr o ran datblygu sgiliau darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL25 Cefnogi datblygu llythrennedd<br>Deunyddiau hyfforddiant cychwynnol ar gyfer cynorthwywyr addysgu:<br>Llythrennedd |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.1, 2.2, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4 a 3.5 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>Mae **datblygu llythrennedd** yn cwmpasu sgiliau cydgysylltiedig:<br>• darllen<br>• ysgrifennu<br>• siarad a gwrando<br>**Polisi** sy'n berthnasol i ddatblygu llythrennedd yw'r polisi ar gyfer Saesneg, Cymraeg a/neu iaith fel y bo'n briodol i'r lleoliad.<br>**Strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr o ran datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu**, e.e:<br>• defnyddio anogeiriau targed ac adborth i ddatblygu defnyddio strategaethau darllen ac ysgrifennu annibynnol<br>• hwyluso cyfranogiad unigolion neu grwpiau bach wrth rannu gweithgareddau darllen ac ysgrifennu<br>• defnyddio ffoneg i helpu dysgwyr i ddeall y system sain a sillafu a'i defnyddio i ddarllen a sillafu'n gywir<br>• defnyddio strategaethau cymorth penodol, e.e. darllen mewn parau, fframiau ysgrifennu |

| | |
|---|---|
| | • defnyddio rhaglenni cymorth penodol, e.e llyfrau darllen graddedig, rhaglenni dysgu cyfrifiadurol gwahanol, rhaglenni ychwanegol ar gyfer cefnogi llythrennedd<br><br>**Strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando,** e.e:<br><br>• cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn sgwrsio, trafod a holi<br>• defnyddio cwestiynau penagored i annog dysgwyr i gyfrannu at sgyrsiau a thrafodaethau<br>• annog dysgwyr swil neu dawedog i gyfrannu at sgyrsiau a thrafodaethau ac i ymateb i gwestiynau<br>• defnyddio iaith a geirfa sy'n briodol i lefel ddealltwriaeth a datblygiad dysgwyr<br>• cyflwyno geiriau a strwythurau newydd i ddysgwyr i'w helpu i ymestyn eu geirfa a'u meistrolaeth o iaith |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br><br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 18 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi datblygu rhifedd |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall y fframweithiau cenedlaethol a sefydliadol presennol ar gyfer mathemateg | 1.1 Esbonio nodau a phwysigrwydd darpariaeth ddysgu ar gyfer datblygu **rhifedd**<br>1.2 Crynhoi fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer mathemateg gan gynnwys disgwyliadau’n gysylltiedig ag oedran ar gyfer dysgwyr fel y bo’n berthnasol i’r lleoliad<br>1.3 Crynhoi polisi a fframwaith cwricwlwm y sefydliad ar gyfer mathemateg<br>1.4 Esbonio rhaglen a chynlluniau’r athro ar gyfer addysgu a dysgu mathemateg |
| 2. Gallu cefnogi dysgwyr o ran datblygu sgiliau rhifedd | 2.1 Defnyddio ystod o **strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr** o ran datblygu **sgiliau rhifedd**<br>2.2 Dewis a defnyddio strategaethau cymorth i fodloni anghenion unigol a thargedau dysgu dysgwyr |
| 3. Gallu cefnogi dysgwyr o ran defnyddio a rhoi mathemateg ar waith | 3.1 Defnyddio ystod o strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr o ran **defnyddio a rhoi mathemateg ar waith** er mwyn datrys problemau<br>3.2 Dewis a defnyddio strategaethau cymorth i fodloni anghenion a thargedau dysgu dysgwyr<br>3.3 Annog dysgwyr i ofyn eu cwestiynau eu hunain a chanfod eu hatebion eu hunain i broblemau mathemategol |

| Gwybodaeth ychwanegol am yr uned | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi datblygu rhifedd. Mae hyn yn cynnwys deall fframweithiau cenedlaethol a sefydliadol ar gyfer mathemateg a defnyddio sgiliau a thechnegau i gefnogi dysgwyr o ran datblygu sgiliau rhifedd a defnyddio a rhoi mathemateg ar waith. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL26 Cefnogi datblygu rhifedd<br>Deunyddiau cychwynnol ar gyfer cynorthwywyr addysgu:<br>Mathemateg |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.1, 2.2, 3.1, 3.2 a 3.3 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Rhifedd:**<br>hyfedredd sy'n cynnwys hyder a chymhwysedd o ran rhifau a mesurau. Mae'n ofynnol dangos dealltwriaeth am y system rifau, amrediad o sgiliau cyfrifiannu a thuedd a gallu i ddatrys problemau rhifau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae rhifedd hefyd yn gofyn am ddealltwriaeth ymarferol o'r ffyrdd y caiff gwybodaeth ei chasglu drwy gyfrif a mesur, a'r ffyrdd y caiff ei chyflwyno mewn graffiau, diagramau a thablau<br><br>**Strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr** o ran datblygu sgiliau rhifedd ac o ran defnyddio a rhoi mathemateg ar waith e.e:<br>• helpu dysgwyr i ddehongli a dilyn cyfarwyddiadau<br>• atgoffa dysgwyr am bwyntiau addysgu a wneir gan yr athro<br>• holi ac annog dysgwyr<br>• helpu dysgwyr i ddewis a defnyddio adnoddau mathemategol priodol, e.e llinellau rhif, offerynnau mesur, gemau, meddalwedd gyfrifiadurol a rhaglenni dysgu |

| | |
|---|---|
| | • esbonio ac atgyfnerthu defnyddio geirfa fathemategol yn gywir<br>• defnyddio canmoliaeth, sylwebaeth a chymorth i annog dysgwyr i ganolbwyntio ar y dasg dan sylw<br>• cyflwyno tasgau dilynol i atgyfnerthu ac ymestyn dysgu, e.e: tasgau datrys problemau, gemau, posau mathemategol<br>Mae **sgiliau rhifedd** yn cynnwys y sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio a chymhwyso mathemateg gan gynnwys:<br>• cyfrif a deall rhifau<br>• gwybod a defnyddio ffeithiau am rifau<br>• cyfrifo<br>• deall siâp<br>• mesur<br>• trin a thrafod data<br>**Defnyddio a rhoi mathemateg ar waith:** datrys problemau neu ddilyn trywydd ymchwilio sy'n cynnwys cynrychioli syniadau gan ddefnyddio rhifau, symbolau neu ddiagramau, rhesymeg a rhagweld a chyfleu canlyniadau ar lafar neu'n ysgrifenedig |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael gan/o** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 18 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi addysgu a dysgu mewn maes cwricwlaidd |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gallu defnyddio gwybodaeth am bynciau i gefnogi addysgu a dysgu mewn maes cwricwlaidd | 1.1 Nodau nodau'r ddarpariaeth ddysgu mewn **maes cwricwlaidd**<br>1.2 Crynhoi disgwyliadau perthnasol cwricwlwm ysgol a disgwyliadau'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer dysgwyr yn y maes cwricwlaidd<br>1.3 Esbonio'r gydberthynas rhwng rôl yr athro a'i rôl ei hun o ran cefnogi addysgu a dysgu yn y maes cwricwlaidd<br>1.4 Defnyddio ei wybodaeth ei hun am y pwnc i:<br>a) gyfrannu at gynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgareddau dysgu neu wersi<br>b) cefnogi dysgwyr o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y maes cwricwlaidd<br>c) helpu dysgwyr i fynd i'r afael â gwallau neu gamsyniadau o ran deall egwyddorion a chydsyniadau'r maes pwnc |
| 2. Gallu datblygu ei wybodaeth ei hun am y pwnc | 2.1 Cynnal hunanwerthusiad realistig o'i wybodaeth ei hun am y pwnc a'i sgiliau<br>2.2 Defnyddio adborth gan athrawon a phobl eraill i nodi unrhyw wybodaeth a sgiliau am bynciau a fyddai'n helpu i wella'r cymorth a ddarperir ar gyfer addysgu a dysgu yn y maes cwricwlaidd<br>2.3 Nodi a defnyddio **cyfleoedd i wella ei wybodaeth ei hun am y pwnc a'i sgiliau**<br>2.4 Dangos sut mae gwybodaeth a sgiliau newydd am y pwnc wedi'u hymgorffori yn ei arfer ei hun |

| | |
|---|---|
| 3. Gallu cyfrannu at ddatblygu addysgu a dysgu mewn maes cwricwlaidd | 3.1 Monitro datblygiadau o ran gwybodaeth ac ymarfer sy'n berthnasol i'r maes cwricwlaidd i lefel ddigonol fel bod modd aros yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf<br>3.2 Defnyddio tystiolaeth o'i waith ei hun a gwaith pobl eraill i fyfyrio ar effeithiolrwydd cymorth addysgu a dysgu yn y maes cwricwlaidd<br>3.3 Gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella cymorth ar gyfer addysgu a dysgu yn y maes cwricwlaidd<br>3.4 Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd am y pwnc gyda chydweithwyr i wella addysgu a dysgu yn y maes cwricwlaidd |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi addysgu a dysgu mewn maes cwricwlaidd. Mae hyn yn cynnwys datblygu a defnyddio gwybodaeth am y pwnc a sgiliau i gefnogi gwybodaeth a sgiliau i gefnogi addysgu a dysgu. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL28 Cefnogi addysgu a dysgu mewn maes pwnc |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 1.4, 2.4, 3.3 a 3.4 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>Mae **maes cwricwlaidd** yn cwmpasu pob ffurf ar ddysgu wedi'i drefnu sydd ar gael ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, gwaith â strwythur thematig yn y cyfnod cynradd, pynciau unigol, pynciau galwedigaethol a gwaith trawsgwriciwlaidd yn y cyfnod 14-19. |

| | |
|---|---|
| | **Cyfleoedd i wella ei wybodaeth ei hun am y pwnc** drwy e.e:<br>• ymchwil<br>• arsylwi gwersi<br>• cyfleoedd datblygu yn yr ysgol<br>• rhaglenni datblygu allanol<br>• cyfnodolion ac adroddiadau |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 12 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm 14 – 19 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall polisi ac ymarfer addysgol ar gyfer addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed oed | 1.1 Grynhoi'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yn y sectorau addysg gorfodol ac ôl-orfodol<br>1.2 Esbonio'r gydberthynas rhwng y sectorau gorfodol ac ôl-orfodol o ran addysg a hyfforddiant 14 -19<br>1.3 Esbonio cyfleoedd a llwybrau dilyniant ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed |
| 2. Gallu cefnogi addysgu a dysgu ar gyfer y rhai rhwng 14 a 19 | 2.1 Esbonio ymagweddau at addysgu a dysgu dysgwyr rhwng 14 a 19 oed yn y lleoliad<br>2.2 Dewis a dangos strategaethau cefnogi dysgu i fodloni anghenion dysgwyr rhwng 14 a 19 oed<br>2.3 Dewis, datblygu a defnyddio adnoddau dysgu i fodloni anghenion dysgwyr rhwng 14 a 19 oed<br>2.4 Dangos ffyrdd o gefnogi dysgwyr rhwng 14 a 19 oed o ran trosglwyddo dysgu i **feysydd bywyd** eraill |
| 3. Gallu cydweithio i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm rhwng 14 a 19 oed | 3.1 Esbonio rolau gwasanaethau ac asiantaethau gwahanol o ran cynnig addysg a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed<br>3.2 Esbonio pwysigrwydd gwaith tîm effeithiol gyda chydweithwyr yn y lleoliad a'r tu allan iddo ar gyfer hybu a sicrhau lles dysgwyr rhwng 14 a 19 oed<br>3.3 Dangos ffyrdd o gyfrannu at gydweithio a **gweithio traws-sector** o ran cynllunio, cyflwyno ac adolygu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed<br>3.4 Defnyddio gwybodaeth am y dysgwyr a'r cwricwlwm i roi adborth ar gyfranogiad a chynnydd dysgwyr rhwng 14 a 19 oed y maent yn gweithio gyda nhw yn y lleoliad a'r tu allan iddo |

| Gwybodaeth ychwanegol am yr uned | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi darparu'r cwricwlwm 14-19. Mae'n cynnwys deall darpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl rhwng 14 a 19 oed, darparu cymorth dysgu sy'n briodol i'r ystod oedran hon a chydweithio i gefnogi cynllunio, cyflwyno ac adolygu addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.2, 2.3, 2.4, 3.3 a 3.4 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>Mae **meysydd bywyd** yn cynnwys:<br>• gwaith<br>• cymdeithasol<br>• personol<br>• cartre<br>f<br>• addysg<br>Mae **gweithio traws-sector** yn cynnwys gweithio gyda chydweithwyr o'r sectorau addysg gorfodol ac ôl-orfodol fel ei gilydd |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 15 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Rhoi cymorth llythrennedd a rhifedd |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gallu nodi anghenion disgyblion am gymorth llythrennedd a rhifedd | 1.1 Esbonio pwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd o ran asesu'r cwricwlwm ehangach<br>1.2 Cael a dehongli gwybodaeth am ddisgyblion o ran:<br>a) sgiliau llythrennedd a rhifedd<br>b) targedau dysgu<br>c) anghenion cymorth llythrennedd a rhifedd<br>1.3 Cael a dehongli gwybodaeth am:<br>a) amcanion addysgu a dysgu'r gweithgareddau dysgu<br>b) galwadau llythrennedd a rhifedd gweithgareddau dysgu |
| 2. Gallu rhoi cymorth llythrennedd i helpu disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm ehangach | 2.1 Defnyddio gwybodaeth am anghenion unigol disgyblion i roi **cymorth llythrennedd**<br>2.2 Nodi a defnyddio cyfleoedd a ddarperir gan y gweithgareddau dysgu i gefnogi datblygu sgiliau **llythrennedd** disgyblion<br>2.3 Ymdrin â heriau mewn perthynas â galwadau llythrennedd gweithgareddau dysgu mewn ffyrdd sy'n cynnal hyder a hunanbarch disgyblion |

| | |
|---|---|
| 3. Gallu rhoi cymorth gyda rhifedd i helpu disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm ehangach | 3.1 Defnyddio gwybodaeth am anghenion unigol disgyblion i roi **cymorth gyda rhifedd**<br>3.2 Nodi a defnyddio cyfleoedd a gynigir gan y gweithgareddau dysgu i gefnogi datblygu **sgiliau rhifedd** disgyblion<br>3.3 Ymdrin â heriau mewn perthynas â galwadau rhifedd gweithgareddau dysgu mewn ffyrdd sy'n cynnal hyder a hunanbarch disgyblion |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i roi cymorth o ran llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm neu o fewn pwnc neu faes galwedigaethol. Mae hyn yn cynnwys helpu disgyblion i ymdrin â galwadau llythrennedd a rhifedd mewn perthynas â gweithgareddau dysgu sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau pwnc, gwybodaeth a sgiliau galwedigaethol, yn ogystal â defnyddio dysgu pwnc neu ddysgu galwedigaethol i ddatblygu a/neu atgyfnerthu sgiliau llythrennedd a rhifedd. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL33 Rhoi cymorth llythrennedd a rhifedd i alluogi disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm ehangach |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 1.2, 1.3, 2.1, 2.2, 2.3, 3.1, 3.2 a 3.3 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Cymorth llythrennedd** yw'r cymorth a roddir i ddisgyblion i'w helpu i fodloni galwadau llythrennedd y cwricwlwm ehangach, e.e:<br>• helpu disgyblion i ddehongli a dilyn cyfarwyddiadau llafar ac ysgrifenedig<br>• annog disgyblion swil neu dawedog i gyfrannu at sgyrsiau a thrafodaethau ac i ymateb i gwestiynau<br>• helpu disgyblion i ddewis a defnyddio adnoddau priodol , e.e geiriaduron personol |

| | |
|---|---|
| | • addasu neu wahaniaethu rhwng deunyddiau dysgu<br>• esbonio geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir gan yr athro<br>• defnyddio anogeiriau wedi'u targedu ac adborth i gefnogi disgyblion o ran defnyddio iaith a geirfa benodol sy'n berthnasol i bynciau<br>• gweithredu fel ysgrifellwr tra bo'r athro'n siarad â'r dosbarth<br>• paratoi disgyblion ar gyfer gwersi, drwy, er enghraifft, ddarllen pennod berthnasol llyfr ymlaen llaw<br>• annog disgyblion i gymryd rhan mewn sgyrsiau, trafodaethau ac ymarfer llafar cyn cwblhau tasgau darllen ac ysgrifennu<br>• cymorth penodol o ran darllen neu ysgrifennu, e.e ysgrifennydd, darlledwr<br><br>**Llythrennedd:**<br>mae'n cyfuno sgiliau pwysig darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando<br><br>**Cymorth rhifedd** yw'r cymorth a roddir i ddisgyblion i'w helpu i fodloni anghenion rhifedd y cwricwlwm ehangach, e.e:<br>• esbonio'r dasg ddysgu a helpu disgyblion i ddeall agwedd neu gynnwys mathemategol y dasg<br>• helpu disgyblion i ddeall eu dysgu a'u profiadau mathemategol blaenorol i annog eu cynnwys yn y gweithgaredd dysgu<br>• defnyddio geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir gan yr athro<br>• helpu disgyblion i ddewis a defnyddio adnoddau mathemategol priodol, e.e. llinellau rhif unigol, offer mesur, offer mathemategol<br>• addasu neu wahaniaethu rhwng deunyddiau dysgu<br>• defnyddio anogeiriau wedi'u targedu ac adborth i gefnogi defnydd disgyblion o wybodaeth a sgiliau mathemategol perthnasol<br>• esbonio ac atgyfnerthu'r iaith, yr eirfa a'r cysyniadau mathemategol perthnasol |

| | |
|---|---|
| | Mae **sgiliau rhifedd** yn cwmpasu'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio mathemateg a'i rhoi ar waith gan gynnwys:<br>• cyfrif a deall rhifau<br>• gwybod a defnyddio ffeithiau am rifau<br>• cyfrifo<br>• deall siâp<br>• mesur<br>• ymdrin â data |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 16 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi dysgwyr dawnus a thalentog |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall anghenion dysgwyr dawnus a thalentog | 1.1 Esbonio doniau neu dalentau penodol dysgwyr yn y lleoliad<br>1.2 Dadansoddi anghenion dysgu ychwanegol **dysgwyr dawnus a thalentog** yn y lleoliad<br>1.3 Nodi ffynonellau cymorth ar gyfer disgyblion dawnus a thalentog:<br>a) yn y lleoliad<br>b) y tu allan i'r lleoliad |
| 2. Gallu cyfrannu at gynllunio rhaglenni dysgu ar gyfer dysgwyr dawnus a thalentog | 2.1 Defnyddio gwybodaeth am y dysgwyr a'r cwricwlwm i gyfrannu at gynllunio rhaglenni dysgu i fodloni anghenion dysgu penodol dysgwyr dawnus a thalentog<br>2.2 Gweithio gydag **eraill** i nodi gweithgareddau **cyflymu, ymestyn a chyfoethogi** i fodloni anghenion dysgwyr dawnus a thalentog yn y lleoliad<br>2.3 Datblygu gweithgareddau dysgu yn seiliedig ar yr amcanion dysgu arfaethedig i:<br>a) ychwanegu ehangder a dyfnder<br>b) cyflymu'r dysgu<br>c) datblygu sgiliau dysgu uwch<br>ch) hybu dysgu annibynnol<br>d) cefnogi myfyrio a hunanwerthuso<br>dd) cynnal cymhelliant a diddordeb dysgwyr<br>2.4 Dewis a pharatoi **adnoddau dysgu** sy'n berthnasol i:<br>a) anghenion, diddordebau a galluoedd dysgwyr<br>b) amcanion addysgu a dysgu wedi'u cyfoethogi |

| | |
|---|---|
| 3. Gallu cefnogi gweithgareddau dysgu ar gyfer dysgwyr dawnus a thalentog | 3.1 Dangos ystod o **strategaethau ar gyfer sicrhau cyfranogiad dysgwyr dawnus a thalentog** mewn gweithgareddau dysgu<br>3.2 Gweithio mewn partneriaeth â dysgwyr i gefnogi'r broses ddysgu<br>3.3 Cefnogi dysgwyr o ran gwerthuso i ba raddau y gwnaeth y gweithgareddau dysgu eu galluogi i fodloni eu hamcanion dysgu<br>3.4 Cefnogi dysgwyr i werthuso eu strategaethau dysgu a'u cyflawniadau a chynllunio dysgu yn y dyfodol<br>3.5 Rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am **gyfleoedd eraill i ddatblygu eu doniau neu eu talentau penodol** |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi dysgwyr dawnus a thalentog. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran cefnogi cynllunio a chyflwyno rhaglenni a gweithgareddau dysgu i fodloni anghenion dysgu penodol dysgwyr. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi dysgwyr o ran gwerthuso eu strategaethau dysgu a'u cyflawniadau a chynllunio dysgu yn y dyfodol a chyfeirio dysgwyr at gyfleoedd eraill i ddatblygu eu doniau neu dalentau penodol. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL34 Cefnogi disgyblion dawnus a thalentog |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4 a 3.5 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Dysgwyr dawnus:**<br>dysgwyr sydd â galluoedd academaidd eithriadol |

| | |
|---|---|
| | **Dysgwyr talentog:**<br>dysgwyr sydd â galluoedd eithriadol mewn celf a dylunio, cerddoriaeth, addysg gorfforol neu mewn chwaraeon neu yn y celfyddydau perfformio megis dawns a drama<br><br>**Eraill:**<br><br>pobl yn y lleoliad a'r tu allan iddo sy'n gallu helpu o ran adnabod dysgwyr dawnus a thalentog a gweithgareddau cyflymu, ymestyn a chyfoethogi sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd, e.e:<br><br>• dysgwyr a'u teuluoedd<br>• arbenigwyr pwnc yn y lleoliad<br>• arbenigwyr pwnc o'r cyfnod addysg nesaf e.e: uwchradd neu AB/AU<br>• pobl fusnes leol<br>• myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig<br><br>Darperir **cyflymu** drwy ymestyn 'cywair' amcanion dysgu i'r rhai a ddisgwylir gan ddysgwyr hŷn neu gyflwyno amcanion o flynyddoedd diweddarach.<br><br>Mae **ymestyn** yn cynnwys gweithio'n fanylach, gyda mwyfwy o gymlethdod, craffter neu haniaeth.<br><br>Mae **cyfoethogi** yn ymwneud â rhoi sgiliau a dealltwriaeth ar waith mewn ystod ehangach o broblemau, gan gynnwys cyd-destunau anghyfarwydd a dod â cheinciau gwahanol o'r pwnc neu'r maes cwricwlwm at ei gilydd.<br><br>**Adnoddau dysgu:**<br>deunyddiau, offer (yn cynnwys TGCh), meddalwedd, llyfrau a deunyddiau ysgrifenedig eraill (e.e. taflenni, gweithlenni), DVDs ac ati sydd eu hangen i gefnogi addysgu dysgu<br><br>**Strategaethau ar gyfer sicrhau cyfranogiad dysgwyr dawnus a thalentog** mewn gweithgareddau dysgu, e.e:<br><br>• rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd a chymorth<br>• defnyddio cwestiynau heriol i ymestyn dysgu ac ymgysylltiad dysgwyr â'r broses ddysgu<br>• cynnig cyfleoedd i ddysgwyr drafod amcanion dysgu |

| | |
|---|---|
| | • annog dysgwyr i wneud penderfyniadau am y dulliau y byddant yn eu defnyddio i gyflawni amcanion dysgu<br>• annog dysgwyr i gydweithredu o ran cyflawni amcanion dysgu<br>• annog dysgwyr i fyfyrio ar yr hyn maent wedi'i gyflawni a'r hyn y gallent ei wneud nesaf<br>**Cyfleoedd eraill ar gyfer datblygu doniau neu dalentau penodol** e.e:<br>• gweithgareddau allgyrsiol a gynigir gan y lleoliad<br>• gweithgareddau cymunedol<br>• clybiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a grwpiau buddiannau |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 21 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi dysgwyr dwyieithog |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gallu rhyngweithio â dysgwyr dwyieithog | 1.1 Ryngweithio â **dysgwyr dwyieithog** mewn ffordd sy'n:<br>a) dangos parch at eu hiaith gyntaf neu iaith/ieithoedd eu cartref, eu gwerthoedd, eu diwylliant a'u credoau<br>b) dangos sensitifrwydd o ran anghenion unigol<br>c) atgyfnerthu hunanddelweddau cadarnhaol i'r dysgwyr<br>1.2 Defnyddio iaith a geirfa sy'n briodol i oedran, lefel dealltwriaeth a hyfedredd y dysgwr yn yr **iaith darged** |
| 2. Gallu cefnogi dysgwyr dwyieithog i ddatblygu sgiliau yn yr iaith darged | 2.1 Crynhoi polisi a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgwyr dwyieithog<br>2.2 Crynhoi damcaniaethau caffael iaith gyntaf a chaffael a dysgu ieithoedd ychwanegol<br>2.3 Defnyddio gwybodaeth am ddamcaniaethau caffael ieithoedd ac anghenion a diddordebau dysgwyr unigol i gefnogi dysgu a datblygu'r iaith darged<br>2.4 Dangos ffyrdd o gyflwyno geiriau a strwythurau iaith newydd i ddysgwyr i ymestyn eu geirfa a'u meistrolaeth strwythurol ar yr iaith darged |
| 3. Gallu cefnogi dysgwyr dwyieithog i fanteisio ar y cwricwlwm | 3.1 Datblygu adnoddau dysgu i fodloni anghenion dysgwyr dwyieithog<br>3.2 Defnyddio **dulliau addysgu, dysgu ac asesu** i gefnogi dysgu a datblygiad iaith dysgwyr unigol<br>3.3 Ymdrin â heriau mewn perthynas â galwadau iaith gweithgareddau dysgu mewn ffyrdd sy'n cynnal hyder a hunanbarch y dysgwr |

| | |
|---|---|
| | 3.4 Annog dysgwyr i ddod yn fwyfwy annibynnol o ran eu dysgu<br>3.5 Rhoi adborth i'r dysgwr ar gyfranogiad a chynnydd y dysgwr mewn perthynas â:<br>a) y gweithgareddau dysgu<br>b) datblygu iaith<br>c) gwybodaeth bwnc, dealltwriaeth a sgiliau |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi dysgwyr dwyiethog. Mae'n addas ar gyfer y rhai sy'n darparu cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL), neu Gymraeg neu Wyddeleg fel ail iaith. Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol dangos cymhwysedd o ran cefnogi dysgwyr dwyieithog o ran datblygu a dysgu iaith yn yr ail iaith neu iaith ychwanegol briodol. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL35 Cefnogi disgyblion dwyieithog/aml-ieithog<br>Deunyddiau hyfforddiant cychwynnol ar gyfer cynorthwy-wyr addysgu:<br>Cynhwysiant |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 1.1, 1.2, 2.3, 2.4, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4 a 3.5 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Dysgwyr dwyieithog** yw'r rhai sydd wedi dod i gysylltiad â dwy iaith neu fwy. Mae'r term yn cwmpasu'r rhai sydd newydd gyrraedd ac sy'n newydd i'r iaith a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm, a'r dysgwyr dwyieithog lefel uwch sy'n gallu cyfathrebu'n hyderus yn yr iaith a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm ond sydd angen cymorth pellach o ran defnyddio'r iaith mewn cyd-destunau academaidd.<br>**Iaith darged** yw'r iaith ychwanegol neu'r ail iaith y mae ei hangen ar ddysgwyr dwyieithog i ddilyn y cwricwlwm h.y. Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL) neu Gymraeg/Gwyddeleg fel ail iaith. |

| | |
|---|---|
| | **Dulliau addysgu, dysgu ac asesu** i gefnogi dysgu a datblygiad iaith dysgwyr dwyieithog e.e:<br>• caniatáu amser i ddysgwyr addasu a dod yn gyfarwydd â strwythur a rhediad gwersi<br>• sicrhau bod amcanion dysgu'n cael eu hesbonio'n glir drwy gymhorthion gweledol<br>• cyflwyno, esbonio ac amlygu geirfa allweddol sy'n gysylltiedig â chynnwys pynciau<br>• cynnig deunyddiau gweledol ac arddangosfeydd allweddol sy'n dangos prosesau tasgau a'r camau i'w cymryd<br>• tasgau sgaffaldiau ysgrifennu<br>• llefaredd sgaffaldiau<br>• modelu iaith lafar ac ysgrifenedig i ategu caffaeliad<br>• defnyddio rhaglenni TGCh i gefnogi sgiliau iaith ac i atgyfnerthu dysgu<br>• integreiddio siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn yr iaith darged<br>• atgyfnerthu dysgu iaith a dealltwriaeth ohoni drwy ailadrodd, amlygu geirfa a ddysgwyd, crynhoi a chofnodi'r hyn a ddysgwyd a chreu cyfleoedd i ailedrych ar gysyniadau allweddol drwy holi<br>• annog ymatebion dysgwyr a hybu rhyngweithio gan ddefnyddio ffurfiau gwahanol ar holi<br>• defnyddio deunyddiau dysgu sy'n ddiwylliannol hygyrch<br>• gwahaniaethu rhwng tasgau dysgu yn cynnwys gwaith cartref<br>• defnyddio cefnogaeth gan gymheiriaid i hybu meddwl a siarad mewn mamieithoedd i ategu dealltwriaeth |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |

| | |
|---|---|
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 23 |

| **Teitl** | Darparu cymorth dwyieithog ar gyfer addysgu a dysgu |
|---|---|
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 6 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Gallu cyfrannu at asesu dysgwyr dwyieithog | 1.1 Gynnal asesiad c**ychwynnol o ddysgwyr dwyieithog**, o dan gyfarwyddyd athro, gan ddefnyddio dewis iaith y dysgwr<br>1.2 Gweithio gyda **phobl berthnasol** i asesu profiad, galluoedd ac arddull dysgu dysgwyr dwyieithog mewn perthynas â'r rhaglen ddysgu arfaethedig<br>1.3 Esbonio pam y gallai fod angen **asesiad arbenigol** a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer trefnu hyn<br>1.4 Rhoi adborth i ddysgwyr a phobl berthnasol ar ganlyniad yr asesiad a'r goblygiadau ar gyfer bodloni anghenion dysgu, datblygu iaith a lles y dysgwr<br>1.5 Rhoi gwybodaeth a chymorth i bobl berthnasol i'w helpu i fodloni anghenion dysgu, datblygiad iaith a lles y dysgwr |
| 2. Gallu rhoi cymorth dwyieithog i ddysgwyr | 2.1 Defnyddio dewis iaith dysgwyr i gyflwyno'r amgylchedd dysgu a gweithdrefnau'r lleoliad iddynt a'u helpu i ymgartrefu ynddynt<br>2.2 Gweithio gyda phobl berthnasol i nodi gweithgareddau dysgu sy'n hybu **dysgu wedi'i bersonoli** yn cynnwys datblygu sgiliau iaith dysgwyr<br>2.3 Dewis a defnyddio **strategaethau cymorth dwyieithog** i fodloni anghenion dysgwyr unigol<br>2.4 Darparu delfrydau ymddwyn da ar gyfer iaith gyntaf ac **iaith darged** dysgwyr<br>2.5 Defnyddio iaith gyntaf y dysgwr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad blaenorol i gefnogi dysgu pellach<br>2.6 Cynnal a datblygu iaith gyntaf dysgwyr mewn cyd-destunau dysgu er mwyn eu galluogi i ddefnyddio eu cronfa iaith gyfan yn effeithiol ar gyfer dysgu |

| | |
|---|---|
| 3. Gallu cefnogi cyfathrebu â theuluoedd dysgwyr dwyieithog | 3.1 Rhyngweithio â **theuluoedd** dysgwyr dwyieithog mewn ffordd sy'n:<br>a) dangos agwedd nad yw'n feirniadol<br>b) gwerthfawrogi amrywiaeth<br>c) cydnabod gwahaniaethau diwylliannol, crefyddol ac ethnig<br>ch) hybu ymddiriedaeth<br>3.2 Rhoi gwybodaeth ddarllenadwy i deuluoedd fel y cytunir gan y lleoliad<br>3.3 Annog teuluoedd i rannu gwybodaeth am eu plentyn i gefnogi'r lleoliad o ran darparu ar gyfer ei les/lles a'i addysg/haddysg<br>3.4 Cofnodi'n gywir unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y teuluoedd a'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd, a throsglwyddo'r wybodaeth hon i'r unigolyn/bobl berthnasol yn y lleoliad ar unwaith |
| 4. Gallu cyfrannu at adolygiadau o gyfathrebu â theuluoedd dysgwyr dwyieithog | 4.1 Ymgynghori â phobl berthnasol am effeithiolrwydd **cyfathrebu** â theuluoedd dysgwyr dwyieithog<br>4.2 Defnyddio gwybodaeth am gyfathrebu â theuluoedd dysgwyr dwyieithog i gyfrannu at adolygiadau o ddulliau cyfathrebu<br>4.3 Nodi unrhyw anawsterau cyfathrebu neu faterion sy'n codi o ganlyniad i **wahaniaethau cyfathrebu**<br>4.4 Gweithio gyda phobl berthnasol i ddatrys unrhyw anawsterau neu broblemau cyfathrebu |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu cymorth dwyieithog ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd y mae eu hiaith gyntaf neu eu prif iaith yn wahanol i'r un a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'n addas ar gyfer y rhai sy'n darparu cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL), neu Gymraeg neu Wyddeleg fel ail iaith. Mae'r uned yn cynnwys defnyddio'r iaith gyntaf a'r iaith darged i gefnogi asesu a dysgu. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi cyfathrebu â theuluoedd dysgwyr dwyieithog. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |

| | |
|---|---|
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL36 Darparu cymorth dwyieithog/aml-ieithog ar gyfer addysgu a dysgu<br>Deunyddiau hyfforddiant cychwynnol ar gyfer cynorthwy-wyr addysgu:<br>Cynhwysiant |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 1.1, 1.2, 1.4, 1.5, 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 2.6, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 4.1, 4.2, 4.3 a 4.4 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>Mae **asesu cychwynnol** yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cynllunio'n ofalus weithgareddau dysgu sydd eu hangen ar gyfer dysgwyr sydd newydd gyrraedd, gan gynnwys:<br>• iaith gyntaf a chefndir ethnig<br>• rhuglder mewn Saesneg<br>• profiad a chyflawniadau addysgol blaenorol<br>• anghenion ehangach megis sefyllfa gartref dysgwr<br>**Dysgwyr dwyieithog** yw'r rhai sydd wedi dod i gysylltiad â dwy iaith neu fwy. Mae'r term yn cwmpasu'r rhai sydd newydd gyrraedd ac sy'n newydd i'r iaith a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm, a'r dysgwyr dwyieithog lefel uwch sy'n gallu cyfathrebu'n hyderus yn yr iaith a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm ond sydd angen cymorth pellach o ran defnyddio'r iaith mewn cyd-destunau academaidd.<br>**Pobl berthnasol** yw'r rhai ag angen a hawl i ddarparu a derbyn gwybodaeth am ddysgwyr dwyieithog fel sy'n berthnasol i'r lleoliad e.e:<br>• aelodau teulu<br>• athrawon sy'n gyfrifol am y dysgwyr<br>• cydlynydd cyflawniad lleiafrifoedd ethnig<br>• athro cymorth iaith ddwyieithog<br>• cynorthwy-wyr addysgu dwyieithog<br>• athro arbenigol EAL<br>• cydlynydd iaith<br>• Athro iaith Saesneg/Cymraeg/Gwyddeleg<br>• staff ynghynghorol neu beripatetig perthnasol yr awdurdod lleol |

| | |
|---|---|
| | Mae'n rhaid i rannu gwybodaeth gadw bob amser at bolisi cyfrinachedd a gweithdrefnau diogelu plant y lleoliad.<br><br>**Asesiad arbenigol**:<br>asesiad sy'n cael ei gynnal a'i ddehongli gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau priodol i archwilio anghenion penodol, yn fanwl yn aml:<br>• hyfedredd yn yr iaith gyntaf<br>• anghenion addysgol arbennig<br>• asesiadau iechyd<br>• asesiadau gofal<br><br>**Dysgu wedi'i bersonoli:**<br><br>cadw pwyslais ar gynnydd unigol, er mwn uchafu gallu pob plentyn a phobl ifanc i ddysgu, cyflawni a chyfranogi. Mae hyn yn golygu cefnogi a herio pob dysgwr i gyflawni safonau cenedlaethol ac ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ffynnu a llwyddo drwy gydol eu bywydau. Nid yw 'dysgu wedi'i bersonoli' yn ymwneud â chynlluniau gwersi unigol neu unigoli, lle y caiff plant eu haddysgu ar wahân, drwy ymagwedd un wrth un yn bennaf<br><br>**Strategaethau cymorth dwyieithog** e.e:<br>• dehongli gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig<br>• defnyddio iaith gyffredin neu iaith darged briodol i esbonio gwybodaeth neu gyfarwyddiadau<br>• cefnogi defnyddio mamieithoedd dysgwyr gyda chyfoedion a staff dwyieithog<br>• datblygu adnoddau dysgu dwyieithog<br>• defnyddio llyfrau a deunyddiau dwyieithog priodol i gefnogi dysgu<br>• dewis anoddau sy'n ddiwylliianol berthnasol i gynyddu cymhelliant a chyfranogiad<br>• monitro dealltwriaeth dysgwyr mewn ffyrdd nad ydynt yn cynnwys defnyddio'r iaith darged yn unig<br>• manteisio ar iaith a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ysgogi gwybodaeth flaenorol a'i chysylltu â phrofiad dysgwyr<br>• hybu meddwl a siarad mewn mamieithoedd i ategu dealltwriaeth<br><br>**Iaith darged** yw'r iaith ychwanegol neu'r ail iaith y mae ei hangen ar ddysgwyr dwyieithog i ddilyn y cwricwlwm h.y. Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL) neu Gymraeg/Gwyddeleg fel ail iaith. |

| | |
|---|---|
| | **Teuluoedd –** mae hyn yn cynnwys rhieni (mam a thadau) a gofalwyr a theuluoedd estynedig a dewisedig sy'n cyfrannu'n sylweddol at les dysgwyr unigol a'r rhai a allai fod â chyfrifoldeb cyfreithiol<br>Mae **cyfathrebu** yn cynnwys:<br>• ar lafar<br>• di-eiriau<br>• anffurfiol<br>• ffurfiol<br>**Gwahaniaethau cyfathrebu** rhwng unigolion a allai greu rhwystrau i gyfathrebu effeithiol rhyngddynt e.e:<br>• iaith<br>• nam ar y synhwyrau<br>• nam lleferydd, iaith neu gyfathrebu<br>• galluoedd gwybyddol<br>• cyflwr emosiynol<br>• gwahaniaethau diwylliannol |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 32 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 5 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall hawliau plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig | 1.1 Grynhoi hawliau cyfreithiol plant a phobl ifanc **anabl** a'r rhai ag **anghenion addysgol arbennig**<br>1.2 Crynhoi'r fframweithiau asesu ac ymyrraeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig<br>1.3 Esbonio pwysigrwydd cydnabyddiaeth ac ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig<br>1.4 Esbonio pwrpas cynlluniau unigol i blant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig<br>1.5 Esbonio egwyddorion gweithio'n gynhwysol gyda phlant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig |
| 2. Deall anableddau a/neu anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc yn ei ofal ei hun | 2.1 Esbonio'r gydberthynas rhwng anabledd ac anghenion addysgol arbennig<br>2.2 Esbonio natur anableddau penodol a/neu anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw.<br>2.3 Esbonio'r **ddarpariaeth arbennig** sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc y mae'n gweithio gyda nhw<br>2.4 Esbonio'r patrwm datblygu disgwyliedig ar gyfer plant a phobl ifanc a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig y mae'n gweithio gyda nhw |
| 3. Gallu cefnogi cynnwys plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig | 3.1 **Cael gwybodaeth** am yr anghenion, galluoedd a diddordebau unigol plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol y mae'n gweithio gyda nhw<br>3.2 Nodi **rhwystrau rhag cyfranogiad** ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | mae'n gweithio gyda nhw |
| | | 3.3 | Defnyddio gwybodaeth am blant a phobl ifanc unigol i dynnu ymaith rhwystrau rhag cyfranogiad |
| | | 3.4 | Cynnwys plant, pobl ifanc ac **eraill** ac ymgynghori â nhw wrth benderfynu ar y camau sydd angen eu cymryd i gefnogi **cyfranogiad** a **mynediad cyfartal** |
| | | 3.5 | Dangos ffyrdd o gefnogi **cynhwysiant** ac arferion cynhwysol yn ei waith ei hun gyda phlant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig |
| 4. | Gallu cefnogi plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig i gyfranogi yn yr ystod lawn o weithgareddau a phrofiadau | 4.1 | Nodi a rhoi ar waith **addasiadau** y gellir eu gwneud i gefnogi plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig i gyfranogi yn yr ystod lawn o weithgareddau a phrofiadau a ddarperir gan y lleoliad |
| | | 4.2 | Cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio cymhorthion ac offer arbenigol fel bo angen i'w galluogi i gyfranogi mewn gweithgareddau a phrofiadau |
| | | 4.3 | Dangos ffyrdd o gefnogi **cyfranogiad** a **mynediad cyfartal** ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig |
| 5. | Gallu cefnogi eraill i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig | 5.1 | Annog a chefnogi eraill i gymryd rhan o ran arsylwi a nodi anghenion, galluoedd a diddordebau plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig |
| | | 5.2 | Annog a chefnogi eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig |
| | | 5.3 | Gweithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc ac eraill i adolygu a gwella gweithgareddau a phrofiadau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n cwmpasu deall hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig; cefnogi cynhwysiant a chyfranogiad; a helpu eraill i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | CCLD 321 (STL38) Cefnogi plant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig<br>Deunyddiau hyfforddiant cychwynnol:<br>Cynhwysiant |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 3.1, 3.3, 3.4, 3.5, 4.1, 4.2, 4.3, 5.1, 5.2 a 5.3 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Anabl:**<br>Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn diffinio unigolyn anabl fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hir dymor ar ei allu/gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.<br>**Anghenion addysgol arbennig:**<br>mae plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn dysgu'n wahanol i'r rhan fwyaf o blant neu bobl ifanc o'r un oedran. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol neu gymorth gwahanol ar y plant a'r bobl ifanc hyn o'u cymharu â phlant a phobl ifanc eraill<br>**Darpariaeth arbennig:**<br>darpariaeth sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol fel arall, i'r ddarpariaeth a wneir yn gyffredinol ar gyfer plant o'u hoedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol, ac eithrio ysgolion arbennig, yn yr ardal<br>**Cael gwybodaeth** am anghenion, galluoedd a diddordebau unigol plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig gan:<br>• y plant a'r bobl ifanc eu hunain<br>• aelodau'r teulu |

| | |
|---|---|
| | • cydweithwyr yn y lleoliad<br>• asiantaethau cymorth allanol<br>• cynlluniau unigol<br>**Rhwystrau rhag cyfranogiad:**<br>unrhyw beth sy'n atal plentyn neu unigolyn ifanc rhag cyfranogi'n llawn mewn gweithgareddau a phrofiadau a gynigir gan y lleoliad neu'r gwasanaeth<br>**Eraill** yn ôl ei rôl ei hun e.e:<br>• aelodau teulu<br>• cydweithwyr yn y lleoliad<br>• gweithwyr proffesiynol allanol i'r lleoliad<br>Mae **cyfranogiad** yn cynnwys:<br>gofyn i blant a phobl ifanc am yr hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio a'r hyn a allai weithio'n well; a'u cynnwys yn y broses ddylunio, cyflwyno a gwerthuso gwasanaethau yn barhaus.<br>**Mynediad cyfartal:**<br>sicrhau bod rhwystrau gwahaniaethol rhag mynediad yn cael eu tynnu ymaith a chaniatáu ar gyfer anghenion unigol plant a phobl ifanc<br>**Cynhwysiant:**<br>Proses o nodi, deall a chwalu rhwystrau rhag cyfranogiad a pherthyn.<br>**Addasiadau** y gellir eu gwneud i gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig mewn perthynas â:<br>• yr amgylchedd<br>• gweithgareddau<br>• arfer gwaith<br>• adnoddau |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |

| | |
|---|---|
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 24 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall y dylanwadau sy'n effeithio ar ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc | 1.1 Esbonio sut y gallai agweddau ar fagwraeth, amgylchiadau'r cartref ac iechyd corfforol ac emosiynol plant a phobl ifanc effeithio ar eu gallu i uniaethu ag eraill<br>1.2 Esbonio effaith unrhyw brofiadau negyddol neu drawmatig yn y cartref ar blant a phobl ifanc ar eu ymddygiad a'u gallu i ymateb yn emosiynol<br>1.3 Esbonio sut y gallai anhwylderau seicolegol a seiciatrig sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc effeithio ar y ffordd maent yn uniaethu ag eraill<br>1.4 Esbonio sut y gallai meddyginiaeth a gymerir gan blant a phobl ifanc effeithio ar eu galluoedd gwybyddol a chorfforol, eu hymddygiad a'u gallu i ymateb yn emosiynol |
| 2. Deall anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, emosiynol a datblygiad cymdeithasol | 2.1 Esbonio anghenion penodol plant a phobl ifanc yn y lleoliad o ran ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol<br>2.2 Crynhoi cynlluniau unigol **plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol** y mae'n gweithio gyda nhw |
| 3. Gallu cefnogi rheoli ymddygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol | 3.1 Gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac **eraill** i nodi a phennu nodau a ffiniau ymddygiad i blant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol<br>3.2 Esbonio sut mae nodau a ffiniau'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu ac atgyfnerthu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol<br>3.3 Rhoi cymorth i blant, pobl ifanc ac eraill i ddeall a rhoi nodau a ffiniau ar waith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 3.4 | Cydweithio ag eraill i roi ymagwedd gadarnhaol, gyfunol ar waith o ran rheoli dadrithiad ac ymddygiad heriol ymhlith plant a phobl ifanc |
| | | 3.5 | Defnyddio gwybodaeth am blant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad datblygiad emosiynol a chymdeithasol i gyfrannu at gynnig cyfleoedd diogel a chefnogol i sefydlu a chynnal rheolau cymunedol a datblygu rhyngweithio cymdeithasol |
| | | 3.6 | Dangos strategaethau ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol a rheoli **ymddygiad amhriodol** ymhlith plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol |
| 4. | Gallu cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol i feithrin cydberthnasoedd ag eraill | 4.1 | Cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol feithrin cysylltiadau cymdeithasol a chydberthnasoedd ag eraill |
| | | 4.2 | Dangos ffyrdd o annog cydweithredu rhwng plant a phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n gymesur i'w hoedran a chyfnod eu datblygiad |
| | | 4.3 | Rhyngweithio â phlant, pobl ifanc ac oedolion eraill mewn ffyrdd sy'n cynnig enghraifft gadarnhaol a chyson o gydberthnasoedd rhyngbersonol effeithiol |
| | | 4.4 | Dangos ffyrdd o ymateb i sefyllfaoedd o wrthdaro, ac achosion o ymddygiad amhriodol gan ystyried ei ddiogelwch ei hun a diogelwch pobl eraill yn briodol |
| | | 4.5 | Dangos strategaethau ar gyfer helpu i ailfeithrin cydberthnasoedd emosiynol sydd wedi chwalu rhwng<br>a) plant a phobl ifanc<br>b) plant neu bobl ifanc ac oedolion |
| | | 4.6 | Dangos ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i adolygu eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol ac effaith y rhain ar bobl eraill a'i hunan |
| 5. | Gallu cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol i feithrin hunanddibyniaeth a hunanbarch | 5.1 | Dangos ffyrdd o annog plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol i:<br>a) gyfleu eu teimladau, eu hanghenion a'u syniadau |

| | |
|---|---|
| | b) gwneud eu penderfyniadau eu hunain<br>c) cymryd cyfrifoldeb am yr hyn maent yn ei wneud<br>5.2 Cefnogi plant a phobl ifanc i ailganolbwyntio ar nodau, ffiniau a chyfrifoldebau personol ar ôl cyfnodau anodd lle maent wedi colli hunanreolaeth<br>5.3 Cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu **sgiliau hunanreoli**<br>5.4 Dangos strategaethau ar gyfer cydnabod a gwobrwyo cyflawniadau ac ymdrechion tuag at hunanddibyniaeth sy'n briodol i oedran, galluoedd a lefel datblygiad plant a phobl ifanc |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r ddealltwriaeth, y wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys deall y dylanwadau sy'n effeithio ar ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc a'u cefnogi i ddatblygu sgiliau emosiynol a chymdeithasol, hunanddibyniaeth a hunan-barch. Mae'r uned hon hefyd yn cwmpasu gweithio gydag eraill, gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion eraill i gefnogi rheoli ymddygiad. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL41 Cefnogi disgyblion ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 3.1, 3.3, 3.4, 3.5, 3.6, 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 4.5, 4.6, 5.1, 5.2, 5.3 a 5.4 gael eu hasesu yn y gweithle<br>Mae **plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol** yn cynnwys y rhai:<br>• sy'n profi anawsterau emosiynol ac |

| | |
|---|---|
| | ymddygiadol<br>• sy'n dawedog neu sydd wedi'u hynysu neu'n dangos ymatebion ffobig i'r ysgol<br>• sy'n aflonydd ac yn peri gofid, sy'n orfywiog ac sy'n ei chael yn anodd canolbwyntio<br>• â sgiliau cymdeithasol anaeddfed neu anhwylderau ar eu personoliaeth<br>• sy'n dangos ymddygiad heriol a allai ddeillio o anghenion cymhleth eraill<br>**Eraill** yn ôl ei rôl ei hun e.e:<br>• aelodau teulu<br>• athrawon<br>• oedolion eraill yn y lleoliad<br>• gweithwyr proffesiynol y tu allan i'r lleoliad e.e. seicolegwyr addysgol<br>**Ymddygiad amhriodol** yw ymddygiad sy'n gwrthdaro â gwerthoedd a chredoau derbyniedig y lleoliad a'r gymdeithas. Gall ymddygiad amhriodol gael ei ddangos ar lafar, yn ysgrifenedig, ar ffurf ymddygiad di-eiriau neu gamdriniaeth gorfforol.<br>**Sgiliau hunanreoli**:<br>sgiliau personol a fydd yn helpu plant a phobl ifanc i drefnu eu hunain ac i reoli eu hymddygiad, yn cynnwys:<br>• gwneud dewisiadau<br>• gwneud penderfyniadau<br>• datrys problemau<br>• hunanfynegiant<br>• sgiliau bywyd cyffredinol |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael/o** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 25 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall anghenion addysgol arbennig dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu | 1.1 Esbonio sut mae anawsterau gwybyddol yn effeithio ar ddatblygu iaith a chyfathrebu, ac i'r gwrthwyneb a sut mae hyn yn effeithio ar ddysgu<br>1.2 Esbonio'r gwahaniaethau sylweddol rhwng anawsterau dysgu cyffredinol sy'n gallu effeithio ar bob agwedd ar ddysgu ac anawsterau dysgu penodol neu nam iaith sy'n gallu ymddangos yn anghyson o ran patrwm cyffredinol galluoedd dysgwr<br>1.3 Esbonio'r ystod o sgiliau gwybyddol sydd eu hangen ar gyfer dysgu effeithiol ac effeithiau anableddau unigol neu luosog ar alluoedd megis amgyffrediad, y cof a phrosesu gwybodaeth<br>1.4 Esbonio **anghenion gwybyddol a dysgu penodol** dysgwyr yn y lleoliad a goblygiadau'r rhain o ran cefnogi mathau gwahanol o weithgareddau dysgu<br>1.5 Crynhoi cynlluniau unigol **dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu** y mae'n gweithio gyda nhw |
| 2. Gallu cefnogi dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu yn ystod gweithgareddau dysgu | 2.1 Esbonio pwysigrwydd dysgu gweithgar i ddysgwyr ag anawsterau gwybyddol a dysgu<br>2.2 Dewis ac addasu **adnoddau dysgu** i fodloni anghenion dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu<br>2.3 Dangos ystod o **strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu**<br>2.4 Dangos ffyrdd o addasu gweithgareddau dysgu i sicrhau dilyniant cynyddol ac ochrol tuag y canlyniadau dysgu bwriadedig ar gyfer dysgwyr sy'n gwneud cynnydd hynod araf |

| | |
|---|---|
| 3. Gallu cefnogi dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu i ddatblygu strategaethau dysgu | 3.1 Dangos ystod o **strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu i ddatblygu strategaethau dysgu**<br>3.2 Dangos ffyrdd o hybu hunan-barch, hunanhyder a sgiliau hunangymorth dysgwyr<br>3.3 Dangos ffyrdd o annog dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain<br>3.4 Gwrando'n ofalus ar ddysgwyr a'u hannog yn gadarnhaol i gyfleu eu hanghenion a'u syniadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol<br>3.5 Cefnogi dysgwyr i adolygu eu strategaethau dysgu a chynllunio sut i'w gwella |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r ddealltwriaeth, y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu. Mae hyn yn cynnwys deall anghenion addysgol arbennig dysgwyr; eu cefnogi yn ystod gweithgareddau dysgu; a'u helpu i ddatblygu strategaethau dysgu effeithiol. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL40 Cefnogi disgyblion ag anghenion gwybyddol a dysgu |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.2, 2.3, 2.4, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4 a 3.5 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Anghenion gwybyddol a dysgu:** anghenion mewn perthynas â'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr effeithiol, yn cynnwys:<br>• sgiliau iaith, cof ac ymresymu<br>• sgiliau dilyniannu a threfnu<br>• dealltwriaeth o rif<br>• datrys problemau a sgiliau datblygu |

| | |
|---|---|
| | cysyniadau<br>• sgiliau echddygol manwl a bras<br><br>**Dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu** yw'r rhai sy'n dangos nodweddion o:<br>• anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys<br>• anawsterau dysgu penodol, e.e dyslecsia, dyspracsia<br>• anhwylder ar y sbectrwm awtistig<br><br>**Adnoddau dysgu:**<br>deunyddiau, offer (gan gynnwys TGCh), meddalwedd, llyfrau a deunyddiau ysgrifenedig eraill (e.e taflenni, gweithlenni), DVDs, ac ati sydd eu hangen i gefnogi addysgu a dysgu<br><br>**Strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu** e.e:<br>• darparu lefelau o sylw, sicrwydd a chymorth unigol o ran tasgau dysgu fel bo'n briodol i anghenion y dysgwr<br>• rhoi cymorth yn ôl yr angen i alluogi'r dysgwr i ddilyn cyfarwyddiadau<br>• rhoi anogaeth gadarnhaol, adborth a chanmoliaeth i atgyfnerthu a chynnal diddordeb ac ymdrechion y dysgwr yn y gweithgareddau dysgu<br><br>**Gweithgareddau dysgu:**<br>y tasgau dysgu a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer dysgwyr unigol, grwpiau o ddysgwyr neu'r dosbarth cyfan<br><br>**Strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gwybyddol a dysgu i ddatblygu strategaethau dysgu** e.e:<br>• strwythuro'r amgylchedd dysgu i hwyluso datblygu sgiliau trefnu a chofio<br>• dilyniannu a strwythuro profiadau dysgu fel bod y dysgwr yn datblygu sgiliau trefnu, prosesu gwybodaeth a datrys problemau<br>• defnyddio dulliau gweledol, clywedol a chyffyrddol i helpu'r dysgwr i ddeall defnydd swyddogaethol gwrthrychau ac ennill gwybodaeth am yr amgylchedd<br>• darparu gwybodaeth, cyngor a chyfleoedd i'r dysgwr ddewis a gwneud ei benderfyniadau ei hun am ei ddysgu |

| | |
|---|---|
| | ei hun |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 21 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi dysgwyr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall anghenion addysgol arbennig dysgwyr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio | 1.1 Esbonio namau ac anhwylderau cyfathrebu dysgwyr yn y lleoliad a'r goblygiadau ar gyfer datblygu iaith a chyfathrebu, rhyngweithio cymdeithasol a dysgu<br>1.2 Esbonio'r gwahaniaethau rhwng patrymau cyfathrebu arferol a'r patrymau penodol neu fwy anarferol o ran cyfathrebu a ddangosir gan ddysgwyr sy'n hwyr yn datblygu, â nam datblygiadol sylweddol neu'r rhai sydd â rhyw fath o anhwylder cyfathrebu neu iaith<br>1.3 Esbonio'r rhyngweithio rhwng caffael iaith yn hwyr, datblygiad gwybyddol ac anhwylder ar y synhwyrau<br>1.4 Esbonio anghenion iaith, cyfathrebu a rhyngweithio penodol dysgwyr yn y lleoliad<br>1.5 Crynhoi cynlluniau unigol **dysgwyr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio** y mae'n gweithio gyda nhw |
| 2. Gallu cefnogi dysgwyr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio i uchafu dysgu | 2.1 Dangos ffyrdd o gefnogi dysgwyr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio i gymryd rhan mewn tasgau a gweithgareddau dysgu<br>2.2 Dewis a defnyddio'r **dull cyfathrebu** mwyaf priodol i atgyfnerthu'r iaith lafar<br>2.3 Cefnogi dysgwyr o ran defnyddio **dulliau cyfathrebu estynedig ac amgen** fel bo'n briodol i'w hanghenion<br>2.4 Dangos ffyrdd o gefnogi ymdrechion dysgwyr o ran cymryd rhan mewn tasgau a gweithgareddau dysgu<br>2.5 Dangos ffyrdd o hybu hunan-barch ac annibynniaeth dysgwyr |
| 3. Gallu cefnogi dysgwyr ag anghenion | 3.1 Cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ag |

| | |
|---|---|
| cyfathrebu a rhyngweithio i feithrin cydberthnasoedd ag eraill | anghenion cyfathrebu a rhyngweithio ddechrau a chynnal cydberthnasoedd ag **eraill**, ac ymateb iddynt<br>3.2 Dangos ffyrdd o gefnogi dysgwyr o ran:<br>a) cyfrannu at sgyrsiau a thrafodaethau ag eraill<br>b) ymateb yn adeiladol i gyfraniadau pobl eraill at sgyrsiau a thrafodaethau<br>3.3 Rhoi anogaeth a chymorth i alluogi pobl eraill i ymateb yn gadarnhaol i ddysgwyr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio<br>3.4 Ymateb i lefel iaith fynegi ac ymateb dysgwyr i atgyfnerthu iaith lafar a hybu annibyniaeth |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r ddealltwriaeth, y wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi dysgwyr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio. Mae hyn yn cynnwys deall anghenion addysgol arbennig dysgwyr a dangos cymhwysedd o ran eu cefnogi yn ystod gweithgareddau dysgu ac wrth ryngweithio ag eraill. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL39 Cefnogi disgyblion ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 3.1, 3.2, 3.3 a 3.4 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Dysgwr ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio:**<br>dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig difrifol a/neu gymhleth sy'n deillio o un neu fwy o'r canlynol:<br>• iaith a lleferydd araf, namau ac anhwylderau iaith a lleferydd<br>• anawsterau dysgu penodol, e.e dyslecsia, dyspracsia |

| | |
|---|---|
| | • anhwylder ar y sbectrwm awtistig<br>• nam synhwyraidd neu gorfforol parhaol yn cynnwys bod yn fyddarddall, byddardod a nam ar y golwg<br>• anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys sy'n effeithio ar eu gallu i gyfathrebu a rhyngweithio ag eraill<br>**Dull cyfathrebu** i atgyfnerthu iaith lafar e.e:<br>• gweledol<br>• clywedol<br>• cyffyrddol<br>• arwyddo<br>**Dulliau cyfathrebu estynedig ac amgen** yw'r systemau a'r offer a ddefnyddir gan ddysgwyr â nam synhwyraidd neu gorfforol i'w galluogi i gyfathrebu ag eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu, e.e:<br>• Ymagweddau Cyfathrebu Cyflawn a defnydd cysylltiedig o ystod o systemau cyfathrebu ag arwyddion, gan gynnwys iaith arwyddion Saesneg ac iaith arwyddion Prydain<br>• Braille<br>• offer i wella clyw, golwg neu leferydd, e.e. offer TGCh, cymhorthion clywedol a gweledol, offer awdiolegol ac offer cynyddu sain, dyfeisiau gweledDedd isel, syntheseiswyr lleferydd<br>**Eraill** y mae dysgwyr yn rhyngweithio â nhw yn y lleoliad e.e:<br>• cyfoedion<br>• athro dosbarth<br>• athrawon pwnc<br>• staff cymorth<br>• cynorthwywyr sy'n rhieni<br>• gweithwyr proffesiynol o'r tu allan i'r lleoliad e.e. therapydd lleferydd ac iaith |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |

| | |
|---|---|
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 21 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall effaith anabledd corfforol, echddygol a/neu synhwyraidd ar blant a phobl ifanc | 1.1 Esbonio effaith anabledd sylfaenol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol plant a phobl ifanc<br>1.2 Esbonio effaith:<br>a) cyflyrau hirdymor neu gynyddol<br>b) salwch cronig, poen a blinder<br>ar emosiynau, dysgu, ymddygiad ac ansawdd bywyd plant a phobl ifanc<br>1.3 Esbonio sut y gallai meddyginiaeth a gymerir gan blant a phobl ifanc effeithio ar eu galluoedd gwybyddol a chorfforol, eu hymddygiad a'u gallu i ymateb yn emosiynol |
| 2. Deall anghenion addysgol arbennig dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol | 2.1 Esbonio natur a lefel anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol o ran dysgwyr yn y lleoliad<br>2.2 Crynhoi cynlluniau unigol **dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol** y mae'n gweithio gyda nhw<br>2.3 Esbonio rolau a chyfrifoldebau pobl **eraill** sy'n cyfrannu at gefnogi dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol<br>2.4 Esbonio'r mathau **o offer arbenigol** a thechnoleg a ddefnyddir gan athrawon y mae'n gweithio gyda nhw a sut mae'n helpu i oresgyn neu leihau effaith nam synhwyraidd neu gorfforol<br>2.5 Esbonio pwysigrwydd gwneud y defnydd gorau posibl o alluoedd synhwyraidd a chorfforol gweddilliol dysgwyr |
| 3. Gallu cefnogi dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol i uchafu dysgu | 3.1 Addasu trefn yr amgylchedd dysgu a'r offer a ddefnyddir i alluogi dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol i fanteisio ar gyfleoedd dysgu, a hynny gymaint â phosibl |

| | |
|---|---|
| | 3.2 Dewis, datblygu a **defnyddio deunyddiau addysgu a dysgu** yn y cyfrwng priodol fel sydd eu hangen ar ddysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol<br>3.3 Dangos ffyrdd o gefnogi dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu fel bo'n briodol i'w lefel datblygiad, eu galluoedd corfforol ac unrhyw gyflwr meddygol<br>3.4 Dangos ffyrdd o ddefnyddio a helpu dysgwyr i ddefnyddio unrhyw offer arbenigol i'w cadw'n gyfforddus a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gymaint â phosibl<br>3.5 Dangos ffyrdd o hybu hunan-barch ac annibyniaeth dysgwyr |
| 4. Gallu rhoi rhaglenni dysgu strwythuredig ar waith i blant a phobl ifanc ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol | 4.1 Defnyddio gwybodaeth am blant a phobl ifanc unigol i gyfrannu at gynllunio **rhaglenni dysgu strwythuredig**<br>4.2 Gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac eraill i gynllunio cyflwyno rhaglenni dysgu strwythuredig i:<br>a) leihau ffactorau sy'n tynnu sylw<br>b) lleihau tarfu ar arferion ac amserlenni arferol<br>c) cael eu cynnal ar adeg pan fydd plant a phobl ifanc ar eu mwyaf ymatebol a phan fyddant yn cael y budd mwyaf posibl<br>4.3 Esbonio pwysigrwydd bod yn ymatebol a hyblyg o ran rhoi gweithgareddau strwythuredig ar waith i ddysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol<br>4.4 Rhoi gweithgareddau strwythuredig ar waith fel y cytunir arnynt gyda phlant, pobl ifanc ac eraill i fodloni anghenion dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned (s)** | Mae'r uned hon yn darparu'r ddealltwriaeth, y wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol. Mae hyn yn cynnwys deall hawliau ac anghenion dysgwyr, gan gynnwys eu hanghenion addysgol arbennig, a dangos cymhwysedd o ran cefnogi dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu. Mae hefyd yn ofynnol dangos cymhwysedd o ran rhoi rhaglenni strwythuredig ar waith i fynd i'r afael ag anghenion penodol dysgwyr e.e. rhaglenni annibyniaeth neu therapi iaith a lleferydd. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL42 Cefnogi disgyblion ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br><br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5, 4.1, 4.2 a 4.4 gael eu hasesu yn y gweithle.<br><br>**Dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol**<br>dysgwyr sy'n dangos graddfeydd o namau ar y clyw, y golwg a/neu nam corfforol<br><br>**Eraill** a allai gyfrannu at gefnogi dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol e.e:<br>• gweithiwr proffesiynol arweiniol<br>• aelodau teulu<br>• athrawon sy'n gyfrifol am y dysgwr<br>• athrawon arbenigol yn y lleoliad neu sy'n rhan o wasanaethau cymorth lleol<br>• Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig<br>• gweithwyr proffesiynol iechyd<br>• gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig e.e therapyddion iechyd proffesiynol |

| | |
|---|---|
| | **Offer arbenigol:**<br>offer a chymhorthion dysgu a allai fod eu hangen ar ddysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol, e.e:<br>• cymhorthion clywedol<br>• cymhorthion gweledol<br>• cymhorthion symudedd<br>• Peiriannau Braille<br>• meddalwedd a chaledwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)<br>**Deunyddiau addysgu a dysgu:**<br>y deunyddiau sy'n addas ar gyfer dysgwyr ag anableddau synhwyraidd, amlsynhwyraidd neu gorfforol, e.e:<br>• diagramau cyffyrddadwy<br>• Braille<br>• deunydd fideo neu DVD ag isdeiltau<br>• caledwedd a meddalwedd TGCh<br>**Rhaglenni dysgu strwythuredig:**<br>rhaglenni dysgu unigol i fynd i'r afael ag anghenion ychwanegol dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol, e.e ffisiotherapi, symudedd, therapi lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol a rhaglenni annibyniaeth |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael gan/o** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 21 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod cyfnodau o newid yn eu bywydau |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 4 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall ystod ac effaith cyfnodau o newid y gallai plant a phobl ifanc eu hwynebu | 1.1 Esbonio'r **mathau o newidiadau** gwahanol y gallai plant a phobl ifanc eu hwynebu<br>1.2 Esbonio patrymau newidiadau o fod yn blentyn hyd at droi'n oedolyn<br>1.3 Esbonio sut y gallai mathau gwahanol o newidiadau effeithio ar blentyn neu unigolyn ifanc<br>1.4 Esbonio sut y gallai'r canlynol ddylanwadu ar ymagwedd plentyn neu unigolyn ifanc at newidiadau:<br>a) diwylliant<br>b) crefydd<br>c) credoau<br>ch) rhyw<br>d) cam datblygu<br>dd) profiadau blaenorol<br>1.5 Esbonio sut y gallai newidiadau effeithio ar blant a phobl ifanc sydd â'r perygl mwyaf o gael eu gwahardd neu o dangyflawniad<br>1.6 Esbonio pam y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig i ymdopi â newidiadau |
| 2. Gallu cydnabod ac ymateb i newidiadau mewn bywydau plant a phobl ifanc | 2.1 Esbonio gydag enghreifftiau yr arwyddion bod plentyn neu unigolyn ifanc yn wynebu cyfnod o newid yn ei fywyd<br>2.2 Cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc archwilio a thrafod digwyddiadau a phrofiadau arwyddocaol a allai effeithio arnynt<br>2.3 Nodi arwyddion pryder neu ofid mewn plant neu bobl ifanc a allai fod yn gysylltiedig â phrofiad o newid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 2.4 | Cydnabod ac ystyried unrhyw arwyddion o newid o ran agwedd ac ymddygiad plant a phobl ifanc unigol |
| | | 2.5 | Rhannu gwybodaeth a phryderon am blant a phobl ifanc gyda'r unigolyn neu'r asiantaeth briodol yn ôl gweithdrefnau'r lleoliad |
| 3. | Gallu gweithio gydag eraill i gynllunio cymorth integredig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd drwy gyfnodau o newid | 3.1 | Esbonio'r **cymorth** sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n mynd drwy gyfnodau o newid |
| | | 3.2 | Esbonio'r fframweithiau cyfreithiol, y gweithdrefnau sefydliadol a'r **llwybrau atgyfeirio** i sicrhau **gweithio integredig** ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd drwy gyfnod o newid |
| | | 3.3 | Defnyddio gwybodaeth am blant a phobl ifanc unigol i gyfrannu at gynllunio sut i'w cefnogi o ran ymdopi â newid |
| | | 3.4 | Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, sefydliadol a moesegol sy'n ymwneud â chyfnewid gwybodaeth |
| | | 3.5 | Dangos parch at y rôl ac at arbenigedd gweithwyr proffesiynol eraill o ran cynllunio cymorth i blant a phobl ifanc sy'n mynd drwy gyfnodau o newid |
| 4. | Gallu cefnogi plant a phobl ifanc o ran ymdopi â chyfnodau o newid yn eu bywydau | 4.1 | Gweithio o fewn y ffiniau a'r protocolau sy'n llywodraethu ei rôl ei hun o ran cefnogi plant neu bobl ifanc sy'n mynd drwy gyfnodau o newid |
| | | 4.2 | Dangos ffyrdd o **gefnogi plant a phobl ifanc o ran ymdopi â chyfnodau o newid** yn eu bywydau |
| | | 4.3 | Rhoi cymorth mewn ffordd amserol i helpu plant a phobl ifanc i ymdopi â chyfnodau o newid a chael canlyniadau cadarnhaol |
| | | 4.4 | Cefnogi plant a phobl ifanc o ran cydnabod ac adeiladu ar eu cryfderau i reoli newid yn gadarnhaol |
| | | 4.5 | Cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc drafod effeithiau a chanlyniadau cyfnodau o newid |
| | | 4.6 | Esbonio pryd a sut i gyfeirio plant a phobl ifanc at eraill yn y lleoliad neu mewn asiantaethau eraill os bydd angen cymorth pellach |

| Gwybodaeth ychwanegol am yr uned | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn cwmpasu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi plant a phobl ifanc yn ystod cyfnodau o newid yn eu bywydau. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran cydnabod ac ymateb i arwyddion o newidiadau a'u cefnogi i ymdopi â chyfnodau o newid a chael canlyniadau cadarnhaol. Mae gweithio integredig i gefnogi plant a phobl ifanc yn ystod newidiadau yn agwedd bwysig ar yr uned hon. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL49 Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod cyfnodau o newid yn eu bywydau<br><br>Craidd cyffredin o sgiliau a gwybodaeth ar gyfer gweithlu'r plant |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br><br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 3.3, 3.4, 3.5, 4.1, 4.2, 4.3, 4.4 a 4.5 gael eu hasesu yn y gweithle.<br><br>Mae **newid** yn cyfeirio at unrhyw gam neu brofiad arwyddocaol ym mywyd plentyn neu unigolyn ifanc sy'n gallu effeithio ar ymddygiad a/neu ddatblygiad. Mae newidiadau'n cynnwys y rhai sy'n gyffredin i bob plentyn ac unigolyn ifanc, megis newid ysgol a glaslencyndod, a'r rhai sy'n benodol i rai yn unig, megis profedigaeth.<br><br>**Mathau o newidiadau**, yn cynnwys:<br>• emosiynol, wedi'u hachosi gan brofiadau personol, e.e profedigaeth<br>• corfforol, e.e symud i sefydliad addysgol newydd, cartref/ardal newydd<br>• deallusol, e.e symud o leoliad cyn ysgol i'r ysgol gynradd neu o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd<br>• ffisiolegol, e.e glaslencyndod, cyflyrau meddygol hirdymor<br><br>**Cymorth** sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n mynd drwy gyfnodau o newidiadau:<br>• yn y lleoliad<br>• gan asiantaethau eraill |

| | |
|---|---|
| | **Llwybrau atgyfeirio:**<br>• yn y lleoliad<br>• ar gyfer asiantaethau eraill<br>**Mae gweithio integredig** yn cynnwys pawb yn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i'w rhoi yng nghanol popeth, bodloni eu hanghenion a gwella eu bywydau.<br>**Cefnogi plant a phobl ifanc o ran ymdopi â newidiadau** yn eu bywydau e.e:<br>• annog plant a phobl ifanc i ofyn cwestiynau am newidiadau yn eu bywydau<br>• gwrando'n astud ar yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud am newidiadau yn eu bywydau<br>• cyfleu negeseuon syml, calonogol am newidiadau allweddol<br>• ymateb yn adeiladol i bryderon plant a phobl ifanc am newidiadau yn eu bywydau<br>• esbonio sefyllfaoedd yn llawn ac yn gywir, yn amlinellu'r hyn sy'n digwydd, ac, os yw'n bosibl ac yn briodol, y rhesymau dros y newidiadau<br>• gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ystyried camau gweithredu posibl i ymdrin â sefyllfaoedd newydd a heriol<br>• cynnwys plant a phobl ifanc o ran gwneud penderfyniadau<br>• crynhoi a chadarnhau pwyntiau allweddol mewn trafodaethau â phlant a phobl ifanc |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 18 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Arwain gweithgaredd allgyrsiol |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall nodau a gofynion y gweithgaredd allgyrsiol | 1.1 Esbonio nodau a chyd-destun y **gweithgaredd allgyrsiol**<br>1.2 Esbonio gwerthoedd neu godau ymarfer sy'n berthnasol i'r gweithgaredd<br>1.3 Esbonio **gofynion iechyd a diogelwch** sy'n berthnasol i'r gweithgaredd |
| 2. Gallu paratoi i arwain gweithgaredd allgyrsiol | 2.1 Dewis offer ac adnoddau ar gyfer y gweithgaredd allgyrsiol<br>2.2 Paratoi offer ac adnoddau ar gyfer y gweithgaredd<br>2.3 Paratoi'r amgylchedd i gynnal y gweithgaredd yn ddiogel<br>2.4 Gwisgo'n briodol ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig |
| 3. Gallu paratoi plant a phobl ifanc ar gyfer gweithgaredd allgyrsiol | 3.1 Rhyngweithio â phlant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo'n werthfawr ac yn gyfforddus<br>3.2 Cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer:<br>a) gwirio'r plant a'r bobl ifanc sy'n bresennol<br>b) sicrhau bod gwisg ac offer plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn briodol<br>3.3 Darparu **gwybodaeth** am y gweithgaredd i blant a phobl ifanc<br>3.4 Canfod a oes gan y plant a'r bobl ifanc unrhyw brofiad a/neu sgiliau perthnasol<br>3.5 Defnyddio sgiliau a thechnegau ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc:<br>a) yn deall y gweithgaredd a'r hyn y byddant yn ei wneud<br>b) **yn barod yn feddyliol a chorfforol** ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig<br>c) yn fodlon cymryd rhan heb roi |

| | |
|---|---|
| | pwysau gormodol arnynt |
| 4. Gallu arwain gweithgaredd allgyrsiol | 4.1 Datblygu'r gweithgaredd ar gyflymdra sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc ac mewn ffordd sy'n bodloni nodau'r gweithgaredd<br>4.2 Rhoi adborth clir a chefnogol i blant a phobl ifanc ar adegau priodol<br>4.3 Rhoi esboniadau ac arddangosiadau ychwanegol i blant a phobl ifanc pan fydd angen<br>4.4 Annog y plant a'r bobl ifanc i ddweud sut maent yn teimlo am y gweithgaredd ac ymateb i'w teimladau'n briodol<br>4.5 Amrywio'r gweithgaredd i fodloni anghenion a chyfleoedd newydd<br>4.6 Paratoi plant a phobl ifanc o ran gorffen eu gweithgareddau |
| 5. Gallu adolygu a gwella gweithgareddau allgyrsiol | 5.1 Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i adolygu'r gweithgaredd<br>5.2 Cefnogi'r plant a'r bobl ifanc o ran canfod pa ddysgu y gallant ei drosglwyddo i feysydd eu cwricwlwm ysgol a rhannau eraill o'u bywyd<br>5.3 Defnyddio adborth gan y plant a'r bobl ifanc i fyfyrio ar ei gyfraniad ei hun at weithgareddau allgyrsiol a'i wella |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn asesu cymhwysedd o ran arwain gweithgaredd allgyrsiol megis clwb, gweithgaredd hamdden, tîm chwaraeon neu weithgaredd celfyddydau perfformio, o dan gyfarwyddyd yr ysgol ond gyda rhywfaint o oruchwylio. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL53 Arwain gweithgaredd allgyrsiol |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5, 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 4.5, |

| | |
|---|---|
| | 4.6, 5.1 a 5.2 gael eu hasesu yn y gweithlu.<br><br>**Gweithgareddau allgyrsiol** yw gweithgareddau sy'n cael eu cynnal y tu allan i oriau ysgol arferol sy'n gallu bod yn fuddiol i ddatblygu plant a phobl ifanc e.e:<br>• cymorth astudio<br>• chwarae a hamdden<br>• dosbarthiadau ffitrwydd<br>• drama<br>• chwaraeon<br>• cerddoriaeth<br>• celfyddydau, crefftau a chlybiau diddordeb arbennig eraill<br>• gweithgareddau gwirfoddoli a busnes a menter<br>• Cynllun Gwobr Dug Caeredin<br><br>**Gofynion iechyd a diogelwch** e.e:<br>• polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y lleoliad<br>• Dyletswydd Gofal<br>• Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith<br>• gofynion ar gyfer gweithgareddau o fewn cwmpas cyrff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer chwaraeon<br><br>**Gwybodaeth** am y gweithgaredd e.e:<br>• nodau a chynnwys y sesiwn<br>• pa mor hir bydd y sesiwn yn para<br>• manylion am unrhyw sesiynau yn y dyfodol<br>• unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>• rheolau ymddygiad<br>• sgiliau a thechnegau<br>• defnyddio offer<br><br>**Paratoi'n feddyliol ac yn gorfforol:** gallu'r cyfranogwyr i gymryd rhan yn y gweithgaredd heb straen gorfforol neu emosiynol ddiangen neu risg o anaf |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal |

| | |
|---|---|
| **pynciau/sectorau** | 01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael gan/o** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 16 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cynnal cofnodion dysgwyr |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall y polisi a'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cynnal cofnodion dysgwyr | 1.1 Esbonio **polisi'r sefydliadol ar gyfer cynnal cofnodion dysgwyr**<br>1.2 Esbonio ei rôl ei hun o ran cynnal **cofnodion dysgwyr** a sut mae hyn yn cysylltu â **rolau pobl eraill** yn y lleoliad<br>1.3 Esbonio gydag enghreifftiau y gwahaniaeth rhwng **mathau gwahanol o wybodaeth**<br>1.4 Esbonio pwysigrwydd:<br>a) diweddaru cofnodion yn rheolaidd<br>b) gwirio dilysrwydd a dibynadwyedd gwybodaeth<br>1.5 Disgrifio gydag enghreifftiau y mathau o wybodaeth a allai ddangos **problemau posibl** o ran dysgwyr unigol a pha gamau i'w cymryd i ymateb i'r rhain |
| 2. Gallu cynnal cofnodion dysgwyr | 2.1 Cael y wybodaeth sydd ei hangen i ddiweddaru cofnodion dysgwyr o ffynonellau dilys a dibynadwy<br>2.2 Gwirio gwybodaeth am gyflawnrwydd, perthnasedd a dilysrwydd<br>2.3 Codi unrhyw **bryderon** am y wybodaeth gyda'r **bobl berthnasol**<br>2.4 Diweddaru cofnodion dysgwyr ar adegau cytûn<br>2.5 Sicrhau bod cofnodion dysgwyr yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfredol<br>2.6 Cadw cyfrinachedd yn ôl gofynion sefydliadol a chyfreithiol |
| 3. Gallu cynnal diogelwch a diogeledd cofnodion dysgwyr | 3.1 **Dychwelyd cofnodion dysgwyr** yn brydlon i'r man cywir ar ôl eu defnyddio<br>3.2 Cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cadw a diogelwch cofnodion dysgwyr<br>3.3 Rhoi gwybod am doriadau gwirioneddol neu doriadau posibl o ran diogelwch |

| | |
|---|---|
| | cofnodion dysgwyr i'r unigolyn priodol |
| 4. Gallu rhannu gwybodaeth gyda'r rhai sydd ag awdurdod i'w derbyn | 4.1 Esbonio pwysigrwydd rhannu gwybodaeth, sut y gall helpu a'r peryglon sy'n gysylltiedig â pheidio â gwneud hynny<br>4.2 Esbonio sut y gall y Ddeddf Ddiogelu Data fod yn offeryn i alluogi ac annog rhannu gwybodaeth<br>4.3 Asesu perthnasedd a **statws gwybodaeth**<br>4.4 Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a sefydliadol rhannu gwybodaeth |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal cofnodion dysgwyr. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran casglu a mewnbynnu data, cynnal diogelwch a diogeledd cofnodion a rhannu gwybodaeth gyda'r rhai sydd ag awdurdod i'w derbyn. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL55 Cyfrannu at gynnal cofnodion disgyblion |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 2.6, 3.1, 3.2, 3.3, 4.3 a 4.4 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Polisi ar gyfer cynnal cofnodion dysgwyr**, yn cynnwys:<br>• pa wybodaeth a gofnodir<br>• amlder diweddaru sydd ei angen ar gyfer mathau gwahanol o gofnodion<br>• gofynion cyfrinachedd<br>• diogelu data<br>• rhannu gwybodaeth<br>• cadw a diogelwch cofnodion dysgwyr<br>• am ba hyd y caiff cofnodion eu cadw |

| | |
|---|---|
| | • pa gofnodion sy'n cael eu trosglwyddo ac i bwy<br>• sut y caiff cofnodion eu trosglwyddo neu eu gwaredu<br>**Cofnodion dysgwr**:<br>y wybodaeth am ddysgwyr sy'n cael ei chofnodi a'i chadw gan y lleoliad, megis:<br>• cofnodion gweithgarwch e.e mewn perthynas â rhaglenni astudio, cynlluniau gwaith, aseiniadau<br>• cofnodion asesu<br>• cofnodion ac adroddiadau ar gynnydd dysgwyr<br>• gweithgareddau oddi ar y safle e.e ymweliadau addysgol, profiad gwaith<br>• cofrestrau e.e ar gyfer presenoldeb, prydau ysgol<br>Gallai cofnodion dysgwyr fod yn rhai papur neu electronig<br>**Rolau eraill** mewn perthynas â chofnodion dysgwr e.e:<br>• y rhai sy'n rhoi data neu wybodaeth i'w cynnwys yng nghofnodion dysgwyr<br>• y rhai sy'n cyfrannu at gynnal cofnodion dysgwyr<br>• y rhai sy'n defnyddio gwybodaeth a gedwir yng nghofnodion dysgwyr<br>**Mathau o wybodaeth** e.e:<br>• cyfrinachol<br>• data personol<br>• data personol sensitif<br>**Problemau posibl** gyda dysgwyr unigol mewn perthynas ag e.e:<br>• cynnydd a wneir<br>• iechyd a lles<br>• diogelu plant<br>• presenoldeb<br>**Pryderon** yn ymwneud ag e.e:<br>• dilysrwydd gwybodaeth<br>• dibynadwyedd gwybodaeth<br>• digonolrwydd gwybodaeth |

| | |
|---|---|
| | • goblygiadau ehangach y wybodaeth (e.e patrymau presenoldeb, pryderon diogelu plant)<br>**Pobl berthnasol** e.e:<br>• athrawon<br>• pennaeth pwnc/grŵp blwyddyn<br>• cydlynydd anghenion addysgol arbennig<br>• cydlynydd rhaglen<br>• uwchreolwyr<br>• yr unigolyn dynodedig ar gyfer diogelu plant<br>• Swyddog Lles Addysg<br>• staff swyddfa<br>Mae **dychwelyd cofnodion dysgwyr** at y man cywir ar ôl eu defnyddio'n cynnwys defnyddio'r protocolau ffeilio cywir ar gyfer cofnodion electronig<br>**Statws gwybodaeth** e.e:<br>• p'un a yw'n sylw ynteu farn<br>• lle bo unigolyn mewn perygl o niwed<br>• lle bo rhwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu<br>• lle y rhoddwyd caniatâd i rannu gwybodaeth<br>• lle nad oes angen caniatâd i rannu gwybodaeth |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael gan/o** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 12 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Monitro a chynnal adnoddau cwricwlwm |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall polisi a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cynnal adnoddau cwricwlwm | 1.1 Esbonio **polisi a gweithdrefnau'r** sefydliad ar gyfer cynnal **adnoddau cwricwlwm**<br>1.2 Esbonio ble i gael gwybodaeth a chyngor am:<br>a) adnoddau cwricwlwm sy'n briodol i anghenion dysgwyr yn y lleoliad<br>b) defnyddio adnoddau'r cwricwlwm<br>c) cyflenwyr<br>d) cynnal adnoddau cwricwlwm<br>1.3 Esbonio pwysigrwydd bodloni terfynau amser cytûn a chyllidebu ar gyfer cyflenwi adnoddau'r cwricwlwm |
| 2. Gallu sefydlu gofynion ar gyfer adnoddau cwriclwm | 2.1 Esbonio sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio yn ei faes cyfrifoldeb ei hun i gefnogi addysgu a dysgu<br>2.2 Ymgysylltu ag athrawon o ran eu cynlluniau gwersi a'u hanghenion disgwyliedig o ran adnoddau<br>2.3 Sefydlu gofynion ar gyfer ystod a nifer yr adnoddau cwricwlwm sydd eu hangen i gefnogi cyflwyno'r cwriclwm yn ei faes cyfrifoldeb ei hun<br>2.4 Nodi unrhyw **ofynion penodol** mewn perthynas â'r adnoddau sydd eu hangen<br>2.5 Monitro'r galw am adnoddau a defnydd ohonynt i nodi meysydd ar gyfer gwella ansawdd, cyflenwad ac addasrwydd |
| 3. Gallu cynnal cyflenwadau o adnoddau cwricwlwm | 3.1 Gwerthuso ystod o adnoddau a chyflenwyr posibl i fodloni gofynion ar gyfer adnoddau cwricwlwm yn y dyfodol<br>3.2 Nodi'r adnoddau sy'n rhoi'r gwerth gorau o ran addasrwydd, cost a gofynion sefydliadol<br>3.3 Dangos ffyrdd o sicrhau bod adnoddau yn bodloni gofynion penodol |

| | |
|---|---|
| | **defnyddwyr**<br>3.4 Cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer:<br>a) cael awdurdod i brynu adnoddau<br>b) archebu deunyddiau ac offer<br>c) cynnal cofnodion o archebion a dosbarthu nwyddau<br>3.5 Olrhain archebion a dosbarthu deunyddiau ac offer<br>3.6 Cymryd camau priodol mewn ymateb i unrhyw **broblemau dosbarthu nwyddau** |
| 4. Gallu monitro cyflenwadau o adnoddau cwricwlwm | 4.1 Dangos ffyrdd o gadw stoc yn ddiogel a chadarn, gan gylchdroi stoc yn effeithiol lle bo'n briodol<br>4.2 Cynnal gwiriadau rheolaidd o stoc i fonitro a chynnal argaeledd adnoddau<br>4.3 Cynnal rhestr gyflawn a chywir o adnoddau yn ei faes cyfrifoldeb ei hun<br>4.4 Dangos ffyrdd o roi gwybod i **bobl berthnasol** am argaeledd cyflenwadau |
| 5. Gallu cynnal adnoddau cwricwlwm | 5.1 Cynnal archwiliadau rheolaidd o adnoddau yn unol â gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol<br>5.2 Glanhau a chynnal adnoddau'n rheolaidd yn unol â gofynion sefydliadol a chyfarwyddiadau gwneuthurwyr lle bo'n berthnasol<br>5.3 Rhoi gwybod i bobl berthnasol pan fydd problem o ran cynnal adnoddau<br>5.4 Gwaredu gwastraff ac adnoddau diangen yn ddiogel, gan achub ar gyfleoedd i ailgylchu deunyddiau ac offer gymaint â phosibl<br>5.5 Gweithio'n ddiogel bob amser, gan gydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol |
| 6. Gallu paratoi a dosbarthu adnoddau cwricwlwm | 6.1 Paratoi adnoddau i'w defnyddio fel y gofynnir gan bobl berthnasol<br>6.2 Dangos ffyrdd o sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o ganllawiau iechyd a diogelwch perthnasol wrth ddosbarthu adnoddau<br>6.3 Cynnal cofnodion cywir o adnoddau a |

| | |
|---|---|
| | ddosberthir |

| Gwybodaeth ychwanegol am yr uned | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i fonitro a chynnal adnoddau cwricwlwm. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran sefydlu gofynion adnoddau, cynnal cyflenwadau o adnoddau, monitro a chynnal stoc, a pharatoi a dosbarthu adnoddau. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL56 Monitro a chynnal adnoddau cwricwlwm |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br><br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 3.3, 3.4, 3.5, 3.6, 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 5.1, 5.2, 5.3, 5.4, 5.5, 6.1, 6.2 a 6.3 gael eu hasesu yn y gweithle.<br><br>**Polisi a gweithdrefnau** ar gyfer cynnal adnoddau cwricwlwm, yn cynnwys:<br>• cadw a diogelwch adnoddau cwriclwm<br>• awdurdodi prynu adnoddau cwricwlwm<br>• archebu deunyddiau ac offer<br>• rheoli stoc<br>• rheoli deunyddiau ag oes ddefnydd gyfyngedig<br>• iechyd a diogelwch<br>• gofynion ar gyfer ymdrin â deunyddiau a/neu offer peryglus a'u cadw<br>• ailgylchu a datblygu cynaliadwy<br>• cael gwared ar wastraff<br><br>**Adnoddau cwricwlwm:**<br>deunyddiau, offer (gan gynnwys TGCh), meddalwedd, llyfrau a deunyddiau ysgrifenedig eraill, DVDs, ac ati sydd eu hangen i gefnogi addysg a dysgu mewn maes pwnc/cwricwlwm<br><br>**Gofynion penodol**:<br>gofynion penodol mewn perthynas ag adnoddau cwricwlwm, megis: |

| | |
|---|---|
| | • ansawdd<br>• terfyn amser<br>• nodweddion arbennig<br>• cost<br>• galw ieithyddol<br>• ffocws diwylliannol<br>**Defnyddwyr**:<br>y bobl a fydd yn defnyddio'r deunyddiau i gefnogi dysgu, gan gynnwys athrawon, staff cymorth a dysgwyr<br>**Problemau dosbarthu nwyddau** e.e:<br>• heb dderbyn archebion<br>• archebion yn cael eu derbyn yn hwyr<br>• eitemau wedi'u difrodi<br>• eitemau coll<br>• eitemau anghywir<br>**Pobl berthnasol**:<br>y rhai sy'n defnyddio neu'n rheoli adnoddau cwricwlwm gan gynnwys athrawon, penaethiaid adrannau, arweinwyr pwnc, uwch reolwyr, bwrsar a staff cymorth eraill |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 13 Addysg a hyfforddiant<br>13.2 Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael o/gan** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 14 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Trefnu teithio i blant a phobl ifanc |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 2 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer trefnu teithio plant a phobl ifanc y tu allan i'r lleoliad | 1.1 Esbonio'r gofynion sefydliadol a chyfreithiol ar gyfer plant a phobl ifanc yn teithio y tu allan i'r lleoliad<br>1.2 Esbonio'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer trefnu teithio plant a phobl ifanc<br>1.3 Esbonio'r **ffactorau** i'w hystyried wrth drefnu teithio ar gyfer plant a phobl ifanc<br>1.4 Esbonio pwysigrwydd plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n gysylltiedig yn cael gwybodaeth gyflawn a chywir am **drefniadau teithio** mewn da bryd<br>1.5 Esbonio'r trefniadau wrth gefn sy'n briodol i'r materion a allai godi pan fo plant a phobl ifanc yn teithio |
| 2. Gallu gwneud trefniadau teithio | 2.1 Cynllunio trefniadau teithio sy'n briodol i ofynion y **daith** ac anghenion **cyfranogwyr**<br>2.2 Cynnal asesiad risg o'r daith gan ddangos sut bydd ei roi ar waith yn lleihau risg<br>2.3 Cynllunio trefniadau teithio sy'n ddiogel ac yn ystyried yr amodau tebygol yn ystod y daith<br>2.4 Datblygu cynlluniau wrth gefn sy'n briodol i'r materion a allai godi pan fo plant a phobl ifanc yn teithio<br>2.5 Gwneud trefniadau teithio sy'n sicrhau:<br>a) effeithlonrwydd<br>b) cost-effeithiolrwydd<br>c) cysur<br>d) pryder am yr amgylchedd<br>2.6 Darparu gwybodaeth glir, gywir a chyfredol ar gyfer **pobl berthnasol** am y trefniadau teithio mewn da bryd<br>2.7 Cydymffurfio â'r holl ofynion sefydliadol |

| | |
|---|---|
| | a chyfreithiol perthnasol ar gyfer y daith |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned** | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i drefnu teithio i blant a phobl ifanc, e.e ar gyfer teithio o'r cartref i'r ysgol, ymweliadau addysgol, astudiaethau maes neu raglenni chwaraeon. Mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran gwneud trefniadau teithio'n berthnasol i'r daith ac anghenion y cyfranogwyr. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL58 Trefnu a goruchwylio teithio (SkillsActive B228) |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br><br>Mae'n rhaid i feini prawf 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 2.6 a 2.7 gael eu hasesu yn y gweithle.<br><br>**Ffactorau** e.e:<br>• oedran y plant neu'r bobl ifanc<br>• plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol<br>• iechyd, diogeledd a diogelwch<br>• asesiad risg<br>• amodau amgylcheddol<br>• gofynion cymhareb oedolion/plant<br>• pellter a hyd teithiau<br>• cost a chyfleustra<br><br>**Trefniadau teithio** fel bo'n briodol i'r daith e.e:<br>• modd cludiant<br>• llwybr<br>• amseroedd gadael a chyrraedd<br>• camau'r daith<br>• bwyd a diod<br>• cysur a hylendid<br>• llety dros nos |

| | |
|---|---|
| | • goruchwylio a chymorth<br>• cludo offer ac eiddo<br>**Teithiau:**<br>• ar droed<br>• mewn cerbyd y sefydliad/cerbyd ar log<br>• cludiant cyhoeddus<br>**Cyfranogwyr** e.e:<br>• staff<br>• oedolion eraill e.e cynorthwywyr sy'n rhieni<br>• plant a phobl ifanc<br>**Pobl berthnasol** e.e:<br>• plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n mynd ar y daith<br>• rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n mynd ar y daith<br>• uwch reolwr yn y lleoliad â chyfrifoldeb cyffredinol am deithio y tu allan i'r lleoliad<br>• arweinydd perthnasol y rhaglen e.e ar gyfer profiad gwaith<br>• staff swyddfa |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael gan/o** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 12 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Goruchwylio plant a phobl ifanc ar deithiau, ymweliadau a gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer goruchwylio plant a phobl ifanc ar deithiau, ymweliadau a gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad | 1.1 Esbonio'r gofynion sefydliadol a chyfreithiol ar gyfer goruchwylio plant a phobl ifanc ar **deithiau**, **ymweliadau** a **gweithgareddau** y tu allan i'r lleoliad<br>1.2 Esbonio pwysigrwydd plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n gysylltiedig yn cael gwybodaeth gyflawn a chywir am drefniadau teithio mewn da bryd<br>1.3 Disgrifio paratoadau nodweddiadol y byddai'n rhaid i blant a phobl ifanc a'r rhai sydd yn eu cwmni eu gwneud ar gyfer yr ystod o deithiau, ymweliadau a gweithgareddau oddi ar safleoedd sy'n digwydd<br>1.4 Esbonio'r trefniadau wrth gefn sy'n briodol i'r **materion** a allai godi pan fydd plant a phobl ifanc ar deithiau, ymweliadau a gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad |
| 2. Gallu paratoi ar gyfer teithiau, ymweliadau a gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad | 2.1 Cael **gwybodaeth** am y plant a'r bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r daith, ymweliad neu'r gweithgaredd<br>2.2 Esbonio a chadarnhau manylion am y **trefniadau teithio** gyda'r unigolyn sy'n gyfrifol am drefnu'r daith, yr ymweliad neu'r gweithgaredd<br>2.3 Cael yr **adnoddau** sydd eu hangen ar gyfer y daith, yr ymweliad neu'r gweithgaredd |
| 3. Gallu goruchwylio plant a phobl ifanc ar deithiau y tu allan i'r lleoliad | 3.1 Cymryd camau rhesymol i alluogi plant a phobl ifanc i adael a chyrraedd yn brydlon<br>3.2 Hebrwng plant a phobl ifanc mewn ffordd ddiogel gan ddefnyddio'r llwybr a'r modd cludiant cytûn<br>3.3 Ymateb i anghenion plant a phobl ifanc unigol a chynnig cymorth pan fydd |

| | |
|---|---|
| | angen<br>3.4 Annog plant a phobl ifanc i ofalu am eu hunain a'u heiddo wrth deithio<br>3.5 Gwirio y caiff yr holl blant a phobl ifanc eu cyfrif drwy gydol y daith<br>3.6 Ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y daith mewn ffyrdd sy'n cynnal diogelwch, diogeledd a chysur **cyfranogwyr** |
| 4. Gallu goruchwylio plant a phobl ifanc yn ystod ymweliadau a gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad | 4.1 Gwirio bod plant a phobl ifanc yn barod am yr ymweliad a/neu'r gweithgareddau<br>4.2 Cynnal diogelwch, lles ac ymddygiad derbyniol plant a phobl ifanc yn ystod yr ymweliad a/neu'r gweithgareddau<br>4.3 Annog a chefnogi plant a phobl ifanc o ran:<br>a) cynnal diogeledd a diogelwch offer ac eiddo<br>b) dangos parch at yr amgylchedd<br>c) gorffen gweithgareddau ar amser<br>ch) dychwelyd offer a deunyddiau i'r man priodol ar ddiwedd yr ymweliad a/neu'r gweithgareddau<br>4.4 Gwirio y caiff yr holl blant a phobl ifanc eu cyfrif drwy gydol yr ymweliad a/neu'r gweithgareddau<br>4.5 Ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi yn ystod yr ymweliad a/neu'r gweithgareddau mewn ffyrdd sy'n cynnal diogelwch, diogeledd a chysur cyfranogwyr<br>4.6 Cymryd camau rhesymol i alluogi plant a phobl ifanc i fod yn barod i adael ar yr amser cytûn |

**Gwybodaeth ychwanegol am yr uned**

| | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i orchwylio plant a phobl ifanc ar deithiau, ymweliadau a gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad. Mae'n ofynnol cael cymhwysedd o ran paratoi ar gyfer goruchwylio plant a phobl ifanc a mynd ati i'w goruchwylio yn ystod teithiau, ymweliadau a gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL58 Trefnu a goruchwylio teithio (SkillsActive B228)<br>STL59 Hebrwng a goruchwylio disgyblion ar ymweliadau addysgol a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.1, 2.2, 2.3, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5, 4.1, 4.2, 4.3, 4.4 a 4.6 gael eu hasesu yn y gweithle. Gellir defnyddio efelychu ar gyfer meini prawf asesu 3.6 a 4.5.<br>**Teithiau:**<br>• ar droed<br>• mewn cerbyd y sefydliad/cerbyd ar log<br>• cludiant cyhoeddus<br>**Ymweliadau** e.e:<br>• alldeithiau lleol<br>• teithiau preswyl<br>• ymweliadau dramor<br>**Gweithgareddau** y tu allan i'r lleoliad e.e:<br>• prosiectau cymunedol<br>• astudiaethau maes<br>• gweithgareddau diwylliannol<br>• gweithgareddau chwaraeon, hamdden ac awyr agored<br>**Problemau** e.e: |

| | |
|---|---|
| | • damwain<br>• unigolyn/unigolion yn mynd ar goll<br>• salwch<br>• gadael neu gyrraedd yn hwyr<br>• problemau cludiant<br>• colli offer neu eiddo<br>**Gwybodaeth** am y plant a'r bobl ifanc i'w goruchwylio e.e:<br>• nifer y plant a'r bobl ifanc<br>• enwau'r plant a'r bobl ifanc<br>• oedran y plant a'r bobl ifanc<br>• unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y plant neu'r bobl ifanc sy'n gysylltiedig<br>**Trefniadau teithio** fel bo'n briodol i'r daith e.e:<br>• modd cludiant<br>• llwybr<br>• amseroedd gadael a chyrraedd<br>• camau'r daith<br>• bwyd a diod<br>• cysur a hylendid<br>• llety dros nos<br>• goruchwylio a chymorth<br>• cludo offer ac eiddo<br>**Adnoddau** e.e:<br>• dogfennau teithio<br>• pecyn cymorth cyntaf<br>• offer<br>**Cyfranogwyr** e.e:<br>• plant a phobl ifanc<br>• staff<br>• oedolion eraill e.e cynorthwywyr sy'n rhieni |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |

| | |
|---|---|
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael gan/o** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 15 |

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Gweithio gydag ymarferwyr eraill i gefnogi plant a phobl ifanc |
| **Lefel** | 3 |
| **Gwerth credyd** | 3 |

| **Deilliannau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Gall y dysgwr: |
|---|---|
| 1. Deall gwaith aml-asiantaeth ac integredig | 1.1 Esbonio pwysigrwydd gwaith aml-asiantaeth a gwaith integredig o ran cefnogi plant a phobl ifanc<br>1.2 Nodi'r asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol allanol sy'n cyfrannu at gefnogi plant a phobl ifanc yn y lleoliad<br>1.3 Esbonio rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol eraill yn y lleoliad a'r tu allan iddo sy'n effeithio ar ei arfer gwaith ei hun<br>1.4 Esbonio ei rôl ei hun mewn sefyllfaoedd grŵp gwahanol gan gynnwys gwaith aml-asiantaeth a gwaith integredig<br>1.5 Esbonio pwysigrwydd parchu:<br>a) cyfraniad gweithwyr proffesiynol eraill at gefnogi plant a phobl ifanc<br>b) ei ffiniau proffesiynol ei hun a rhai pobl eraill<br>c) sgiliau ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol eraill<br>1.6 Esbonio polisi a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer dod i gysylltiad ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol allanol a chynnal y cysylltiad hwnnw |
| 2. Gallu cynnal cydberthnasoedd gwaith ag ymarferwyr eraill | 2.1 Rhoi gwybodaeth i gynorthwyo **ymarferwyr** eraill yn eu rôl yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r lleoliad<br>2.2 Rhannu gwybodaeth sy'n gyflawn, yn gywir ac o fewn ffiniau ei rôl a'i gyfrifoldebau ei hun<br>2.3 Esbonio pryd a pham y dylai ymarferydd arall gael ei gyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth, cyngor neu gymorth yn y lleoliad<br>2.4 Rhyngweithio ag ymarferwyr eraill mewn ffordd sy'n debygol o hybu ffydd a hyder |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn y berthynas |
| | | 2.5 | Achub ar gyfleoedd i ymestyn cyswllt personol ag ymarferwyr eraill ac arsylwi eu harbenigedd penodol yn uniongyrchol |
| | | 2.6 | Rhoi cyngor, gwybodaeth ac arddangosiadau i gynorthwyo ymarferwyr eraill o ran datblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'w rolau |
| 3. | Gallu gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr eraill | 3.1 | Ymateb i geisiadau ymarferwyr eraill am wybodaeth a chymorth mewn ffordd sy'n dangos parodrwydd i gydweithredu |
| | | 3.2 | Esbonio'n glir i ymarferwyr eraill unrhyw ffactorau sy'n cyfyngu ar eich gallu i gydweithredu |
| | | 3.3 | Defnyddio gwybodaeth am y plant a'r bobl ifanc i gyfrannu at gynllunio a rhoi camau gweithredu ar y cyd ar waith |
| | | 3.4 | Cyflawni ymrwymiadau cytûn i wneud gwaith mewn partneriaeth ag ymarferwyr eraill |
| | | 3.5 | Ceisio cyfleoedd ac achub arnynt i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr eraill i gefnogi ei rôl ei hun |

**Gwybodaeth ychwanegol am yr uned**

| | |
|---|---|
| **Pwrpas a nod(au) yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i weithio gydag ymarferwyr eraill i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae'n cwmpasu gwaith integredig ac aml-asiantaeth ac mae'n ofynnol dangos cymhwysedd o ran cynnal cydberthnasoedd gwaith a gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr eraill. |
| **Dyddiad y bydd yr uned yn dod i ben** | |
| **Manylion am y gydberthynas rhwng yr uned a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol neu safonau proffesiynol neu gwricwla eraill (os yw'n briodol)** | STL62 Meithrin a chynnal cydberthnasoedd gwaith ag ymarferwyr eraill |
| **Gofynion asesu neu gyfarwyddyd a nodir gan gorff sector neu gorff rheoliadol (os yw'n briodol)** | Mae'n rhaid i'r uned hon gael ei hasesu yn unol ag egwyddorion asesu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion.<br>Mae'n rhaid i feini prawf asesu 2.1, 2.2, 2.4, 2.5, 2.6, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4 a 3.5 gael eu hasesu yn y gweithle.<br>**Ymarferwyr**:<br>cydweithwyr yn y lleoliad neu gysylltiadau o sefydliadau allanol y mae eu gwaith yn effeithio ar eich rôl |
| **Cymorth i'r uned gan gyngor sgiliau sector neu gorff priodol arall (os bydd angen)** | Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| **Lleoliad yr uned yn y system dosbarthu pynciau/sectorau** | 01 Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal<br>01.5 Datblygiad a lles plant |
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned** | |
| **Argaeledd defnyddio** | Uned a rennir |
| **Uned ar gael gan/o** | |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yn yr uned** | 15 |